# Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol 2023/24

Tachwedd 2024



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Cynnwys**


Rhagair gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ..... 3

Trosolwg o'r gwasanaethau a ddarperir ..... 6

- Gofal Cymdeithasol i Oedolion ..... 6
- Gwasanaethau Integredig ..... 10
- Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ..... 13
- Cymorth Cynnar ac Asesu ..... 15
- Cymorth a Diogelu ..... 17
- Cymorth i Deuluoedd ac Adnoddau ..... 19
- Anghenion Cymhleth a Phontio ..... 20
- Y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant ..... 21
- Plant ac Addysg Integredig ..... 22
- Llesiant Delta - Gofal trwy Gymorth Technoleg ..... 23

Darpariaeth Gofal Uniongyrchol y Cyngor a Gofal a Gomisiynir ..... 25

- Eiriolaeth ..... 26
- Gofal Preswyl ..... 27

Beth mae pobl yn ei ddweud ..... 30

- Gwobrau ..... 30
- Enghreifftiau o'r ganmoliaeth a gafwyd: ..... 36
- Cwynion Cam 2 ..... 37
- Cwynion i'r Ombwdsmon ..... 38
- Yr Iaith Gymraeg ..... 38

Strwythur Rheoli ..... 40

Camau nesaf 2024/25 ..... 41

Trefniadau Llywodraethu.


| Dyddiadau cyfarfodydd | Dyddiadau cau |
|---|---|
| • Y Tîm Rheoli Adrannol - 10 Hydref 2024 | • 9 Hydref 2024 |
| • Y Tîm Rheoli Corfforaethol - i'w ddosbarthu | • I'w ddosbarthu |
| • Craffu – 21 Hydref 2024 | • 10 Hydref 2024 |
| • Rhag-gyfarfod y Cabinet - 4 Tachwedd 2024 | • 23 Hydref 2024 |
| • Y Cabinet – 18 Tachwedd 2024 | • 6 Tachwedd 2024 |
| • Y Cyngor – 11 Rhagfyr 2024 | • 2 Rhagfyr 2024 |

# Rhagair gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol



Dyma fy **unfed adroddiad blynyddol ar ddeg** fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin a'm **pedwerydd adroddiad ar ddeg** fel Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae gofyniad statudol arnaf i adrodd ar y perfformiad bob blwyddyn i ddangos y gwelliannau a'r heriau sylweddol a wynebwyd gennym yn ystod 2023/24. Rwyf hefyd yn gosod ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn gyfredol, sef 2024/25. Fel bob amser, mae'r adroddiad yn parhau i fod yn fersiwn ddrafft wrth i ni ymgysylltu â staff ac aelodau etholedig. Mae hyn yn fy ngalluogi i ystyried adborth wrth iddo symud ymlaen i gael cymeradwyaeth derfynol.

Roedd 2023/24 yn flwyddyn heriol mewn Llywodraeth Leol lle roedd cyfuniad o'r galw, disgwyliadau'r cyhoedd, prinder llafur ar draws y sectorau a'r effeithiau ar ôl y pandemig wedi arwain at flwyddyn ddigynsail o heriau a newid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r pwysau sy'n effeithio ar y Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant wedi cynnwys cyfraddau uwch o dlodi yn sgil yr argyfwng costau byw a dirywiad iechyd meddwl plant ar ôl y Pandemig ac o ran eu perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd hyn, ochr yn ochr â methiant y farchnad ledled y DU i ddarparu lleoliadau a gostyngiad cenedlaethol yn nifer y gweithwyr cymdeithasol a oedd yn ymarfer, wedi creu storm berffaith ar gyfer y gwasanaeth yn 2023. Yn lleol, mae ymddeoliadau swyddogion sydd wedi bod yn eu swyddi ers cyfnod hir, prinder o Weithwyr Cymdeithasol rheng flaen a newidiadau arweinyddiaeth i gyd wedi creu newid yr ydym bellach ar y ffordd i'w reoli gyda dealltwriaeth gorfforaethol ardderchog o'r cymorth sydd ei angen.

Dechreuodd mwy o gymorth yn haf 2023 pan dynnodd adroddiadau perfformiad sylw at y pwysau digynsail ar y gweithlu, y cyllidebau, y galw a'r lleoliadau. Fel cyngor, gwnaethom ymateb yn gorfforaethol drwy lefel ddigynsail o ymyrraeth ariannol. Cafodd y gwasanaeth hwb ariannol o 7.5 miliwn a chynllun a oedd yn ceisio mynd i'r afael â phwysau gyda chyllid ar gyfer lleoliadau a phecynnau gofal ynghyd â buddsoddi miliynau mewn modelau gofal newydd, gwasanaeth preswyl mewnol, gwaith cymdeithasol ychwanegol a chynllun hyfforddeiaethau gwerth £600,000 i sicrhau cyflenwad o weithwyr cymdeithasol nawr ac yn y dyfodol. Rwy'n parhau i gadeirio bwrdd corfforaethol sy'n parhau i gefnogi a herio'r gwasanaeth.

Yn ystod 2024 rydym wedi ehangu'r gwasanaeth a phenodi i ddwsinau o swyddi gwaith cymdeithasol ac rydym ar y trywydd iawn i gael ein staffio'n llawn heb weithwyr asiantaeth yn y flwyddyn ariannol hon. Mae hyn yn creu'r sylfaen sydd ei hangen arnom i wella arferion gwaith cymdeithasol a fydd yn cadw teuluoedd gyda'i gilydd yn well. Rydym hefyd wedi creu 5 cartref lleol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc Digwmni sy'n Ceisio Lloches ac yn symud ymlaen yn unol â'r amserlen i gynnig lleoedd yn lleol ar gyfer yr holl rai newydd sy'n cyrraedd o dan gynllun gorfodol y Swyddfa Gartref. Mae'r llwybrau yn ymwneud ag ymyrraeth gynnar yn gwella ac mae'r cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi arafu ac mae'r un nifer o blant sy'n derbyn gofal ym mis Medi 2024 ag yr oedd ym mis Mawrth 2024. Rydym yn parhau i fod â'r nifer isaf (yn ôl

poblogaeth) o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru ac mae gwaith caled yn cael ei wneud i leihau hyn ymhellach lle mae'n ddiogel gwneud hynny.

Blaenoriaethau'r bwrdd yn y flwyddyn i ddod fydd cyflymu a chefnogi'r gwaith o ddatblygu lleoliadau preswyl mewnol ychwanegol, lansio cynllun taliadau maethu newydd a chytuno ar gynllun cymhwysedd adnoddau newydd ar gyfer plant ag anableddau. Mae'r rhain yn ddiwygiadau hanfodol ac mae buddsoddiad ar waith i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau plant yn y dyfodol. Bydd y sylfaen sydd gennym nawr yn caniatáu i'r gwasanaeth ganolbwyntio ar ymarfer a chymorth mewn teuluoedd drwy gydol 2024/25.

Roeddwn wrth fy modd bod ein Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi cael sgôr 'Rhagorol' gan Arolygiaeth Prawf y DU. Y sgôr hon oedd y gorau yng Nghymru a barnwyd ei fod ymhlith y gwasanaethau gorau o'i fath yn y DU. Wrth wraidd y perfformiad anhygoel hwn roedd gweithlu sefydlog, arweinyddiaeth ragorol ac ymrwymiad i atal, sef priodoleddau yr ydym yn ceisio eu hadlewyrchu ar draws yr holl wasanaethau i blant.

O ran pobl hŷn rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ymateb i'r cynnydd o 3% y flwyddyn yn nifer y rhai sy'n fregus ac sydd angen gofal wrth i'n cynnydd yn y niferoedd sydd angen gwasanaeth dyfu hyd yn oed yn gyflymach na thueddiadau cenedlaethol. Yn y dyfodol mae'r cyngor yn wynebu cynnydd o fwy na 60% yn nifer y rhai sydd angen gofal erbyn 2043 a bydd angen ystyried hyn yn ein proses pennu cyllideb yn y dyfodol wrth i arbedion ddod yn anoddach i'w cyflawni. Bydd cynllun cynaliadwyedd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2025 a bydd angen i'r cyngor fod mewn sefyllfa i gynyddu'r cyllid ar gyfer y cynnydd enfawr yn nifer y bobl hŷn flwyddyn ar ôl blwyddyn er mwyn cyflawni dyletswyddau statudol a chynnal safonau gwasanaeth. Mae'r gwaith o baratoi ar gyfer cynnydd blynyddol mwy byth yn ein poblogaeth dros 85 oed yn 2030 yn mynd rhagddo. Yn yr un modd â'r gwasanaethau plant, mae marchnadoedd yn manteisio ar gynnydd yn y niferoedd ar gyfer gofal preswyl ac er ein bod yn ymdopi ar hyn o bryd, mae'r sector yn dod yn fwyfwy bregus a drud. Yn yr un modd â'r gwasanaethau plant, rydym yn gweld y sector yn parhau i gael ei gyfuno wrth i gwmnïau mawr, sydd yn aml wedi'u cefnogi gan gronfeydd rhagfantoli sy'n gweithredu sawl brand, geisio monopolïau drwy gaffaeliadau a gofyn am daliadau ychwanegol o hyd at 25% ar ein cyfradd ffioedd.

Bydd strategaeth i ddatblygu dau gartref nyrsio preswyl mewnol newydd yn hanfodol ac rydym wedi datblygu cynlluniau i adeiladu un cartref preswyl/nyrsio â 60 gwely ac un â 72 gwely. Mae'n debygol y bydd angen hyd at 30% o'r costau cyfalaf arnom ar gyfer y rhain er mwyn eu rhoi ar waith erbyn 2027. Mae hyn yn newid radical o naratifau cyhoeddus/preifat sefydledig gan fod ein heffeithlonrwydd gwell yn fewnol, màs critigol a'r diffyg elw yn golygu y gallwn bellach ddarparu gofal yn rhatach na'r cartrefi hynny sy'n gofyn am daliadau ychwanegol yn ogystal â darparu telerau ac amodau gwell i staff.

Rydym yn parhau i ddarparu gwasanaethau integredig yn llwyddiannus ar gyfer pobl hŷn ac mae ein Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro yn darparu gwasanaethau yn llwyddiannus yn y gymuned i ddiwallu anghenion iechyd a gofal ein poblogaeth. Mae'r defnydd o dechnoleg ac offer yn cynyddu, ac rydym wedi gweld mwy o wobrau ac

adroddiad arolygu rhagorol gan AGC ar gyfer Llesiant Delta. Un o'r heriau allweddol yng ngorllewin Cymru yw darparu gofal i nifer cynyddol o bobl fregus mewn cartrefi preswyl a bron i 50% yn llai o gyllid gan y bwrdd iechyd ar gyfer gwelyau mewn gofal cartref nyrsio.

O ganlyniad, mae Sir Gaerfyrddin yn cyllido bron y nifer uchaf o welyau preswyl yn ôl y boblogaeth yng Nghymru. Mae'n anoddach lleoli unigolion bregus sydd â lefelau uchel o ofal meddygol ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty, mae cartrefi preswyl angen llawer o amser nyrsys ardal ac mae cartrefi gofal yn ei chael hi'n anodd bodloni'r lefelau uchel o angen yn eu cartrefi heb staff ychwanegol. Bydd sicrhau bod asesiadau yn yr ysbyty yn adlewyrchu anghenion iechyd cyfnewidiol unigolion bregus yn hanfodol er mwyn i ni ddiwallu anghenion y boblogaeth fregus iawn hon yn y dyfodol. Ni fydd dadfuddsoddi parhaus mewn gofal cartref nyrsio yn gynaliadwy wrth i'r boblogaeth fregus hon gynyddu.

Darperir gofal cartref yn unol â chyfartaledd Cymru (i lawr o'r chwartel uchaf 5 mlynedd yn ôl) ac mae amseroedd aros yn y gymuned wedi cael eu lleihau'n sylweddol ac mae modd ymdopi ag amseroedd aros ar gyfer asesu. Mae'r rhai sy'n aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty oherwydd gofal cymdeithasol ar yr un lefelau ag yr oeddent cyn y pandemig, mae amseroedd hir wedi lleihau ac, er bod mwy i'w wneud o hyd, maent yn gyfran isel iawn o gyfanswm y niferoedd yn yr ysbyty.
Ym maes Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl, mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i reoli'r galw am ofal preswyl gyda thwf sylweddol mewn darpariaeth byw â chymorth.

Gan fod lefelau cymhlethdod wedi cynyddu mae hyn wedi bod yn gryn gamp. Rydym yn bwriadu cyflymu hyn ymhellach yn y dyfodol. Mae ein Gwasanaeth Diogelu Oedolion yn parhau i berfformio'n dda, ac mae arweinyddiaeth y gwasanaeth bellach yn ymgymryd â rôl gydgysylltu arweiniol mewn strwythur llywodraethu Diogelu Corfforaethol ar draws y Cyngor sydd newydd gael ei lansio.

Mae ein hunedau Gofal Cartref a phreswyl i gyd wedi cael arolygiadau cadarnhaol wrth i fuddsoddiad mewn cofnodion electronig a lefelau staffio barhau i wella. Mae cynyddu ein cyfran o'r farchnad gofal cartref yn gyson dros 40% yn parhau i fod yn heriol gan fod recriwtio a chadw yn y sector yn araf er bod rhestrau aros wedi lleihau.

Rwy'n falch o ddweud bod ein byrddau diogelu rhanbarthol CYSUR (Plant), yr wyf yn ei gadeirio, a CWMPAS (Oedolion) yn mynd o nerth i nerth gyda phartneriaeth gref a chyson sy'n darparu trefniadau llywodraethu rhanbarthol hanfodol ar gyfer dysgu mewn meysydd fel VAWDASV. Rydym yn parhau i berfformio'n dda fel rhanbarth wrth ddysgu o achosion a ni yw'r bwrdd arweiniol cenedlaethol sy'n datblygu'r fformat newydd (SUSR) ar gyfer adolygiadau achos sy'n dwyn adolygiadau ynghyd ar draws ystod o feysydd er mwyn creu un broses.

Rwy'n hynod falch o'n gweithlu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac rwy'n falch bod ein strwythur cyflog ar gyfer staff ar draws gwaith cymdeithasol a gofal yn eu talu'n well na bron unrhyw awdurdod arall yng Nghymru. Gweithlu cryf yw sylfaen ein holl ddarpariaeth, ac rwy'n gobeithio y gallwn bellach adeiladu ar ein sefydlogrwydd cymharol i ehangu ein darpariaeth gofal a gwella Gwaith Cymdeithasol ar draws yr holl wasanaethau. Rydym yn ffodus yn Sir Gaerfyrddin i gael tîm corfforaethol sy'n deall ac

yn cefnogi'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y gwaith tîm hwn yn hanfodol er mwyn ymateb i'r heriau yn y blynyddoedd nesaf.

***Jake Morgan***

***Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol***

# Trosolwg o'r gwasanaethau a ddarperir

## Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn is-adran amrywiol fawr sy'n cynnwys amrywiaeth o dimau a gwasanaethau: Anabledd Dysgu, Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau, Diogelu, Gwasanaethau Dydd a Seibiant a Gofal Cartref.

Mae effaith y pandemig wedi bod yn heriol i'r gweithlu gofal cymdeithasol, ac mae hyn yn parhau i fod yn un o'n heriau mwyaf. Rydym wedi wynebu heriau o ran cadw staff, yn enwedig ym maes gofal cartref, ac rydym wedi gweld cynnydd yn y galw a'r cymhlethdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r heriau hyn, yn ystod cyfnod o gyni cyllidol, wedi arwain at heriau digynsail i'r gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Mae wedi bod yn galonogol gweld bod mentrau secondiad yn 2021/22 wedi gwella recriwtio a chadw mewn Gwaith Cymdeithasol wrth i unigolion cymwys gyrraedd bellach.

Felly, mae adeiladu gweithlu cynaliadwy yn flaenoriaeth allweddol ac mae ein strategaeth *'tyfu ein gweithwyr cymdeithasol ein hunain'* yn llwyddo. Ym maes gofal cartref mae gennym ymgyrch recriwtio egnïol sy'n dechrau gwneud gwahaniaeth. I gefnogi hyn, rydym wedi symleiddio ein prosesau recriwtio, wedi cyflwyno capasiti ychwanegol i gefnogi recriwtio ac wedi gwella'r strwythur graddau ar gyfer staff gofal cartref.

Yn y gwasanaeth gofal cartref, mae'r tîm rheoli wedi cyflwyno nifer o fentrau blaengar megis cofnodion electronig a systemau mwy effeithlon i reoli prosesau Adnoddau Dynol. Roedd arolygiad diweddar gan AGC yn gadarnhaol iawn a gwnaeth sylwadau am y safonau gofal uchel:

“Mae'r bobl a'u perthnasau yn canmol y gweithwyr gofal a'r gofal a ddarperir ganddynt yn fawr. --- “mae'r gofalwyr yn help mawr, dwi ddim yn gwybod beth fyddwn i'n ei wneud hebddyn nhw”, “mae'r gofalwyr yn rhagorol, maen nhw'n ymweld â fy mam-gu bedair gwaith y dydd, maen nhw'n wych, allech chi ddim rhoi gwell gofal iddi sy'n beth gwych i'w wybod a'i weld”.

O ran ailalluogi, rydym wedi llwyddo i sefydlu trefniant brysbennu ar gyfer gofal canolraddol gyda chydweithwyr iechyd; y tîm Gartref yn Gyntaf. Mae hyn yn cael effaith ar lif ysbytai ac yn lleihau rhestrau aros. Mae'r tîm hefyd wedi ennill nifer o wobrau allanol o fri.

Un o brif amcanion Gofal Cymdeithasol i Oedolion fu datblygu ystod o lety â chymorth i leihau'r ddibyniaeth ar ofal preswyl. Mae hyn yn gwella canlyniadau, ac yn hyrwyddo annibyniaeth a dewis unigolion. Mae'r rhaglen waith hon yn effeithio ar dargedau arbedion yr is-adran hefyd, drwy leihau gorddarpariaeth mewn rhai achosion. Rydym wedi sefydlu strwythur llywodraethu newydd ar gyfer y gwaith hwn a nodwyd fel maes gwella y llynedd ac mae'r rhaglen hon bellach yn mynd rhagddi'n gyflym.

Mae saith cynllun tai wedi eu hagor ac mae mwy i ddilyn eleni. Mae tua 32 o bobl wedi camu i lawr o ofal preswyl. Rydym yn gwella ein dulliau cynllunio ar gyfer y bobl ifanc hynny sy'n pontio ac yn cydweithio â gwasanaethau plant, tai a chomisiynu i sicrhau y bydd pobl ifanc yn gallu aros yn ardal eu cartref ar ôl cyrraedd 18 oed.

Mae ein taith trawsnewid o ran cyfleoedd dydd anabledd dysgu wedi cael croeso twymgalon gan y tîm staff, sydd yn arloesol drwy'r amser gan gynnwys wrth wneud gweithgareddau ar y cyd â hamdden. Mae'r hwb sgiliau sydd newydd ei sefydlu yn Cross Hands yn cynnig celf a chrefft, gwaith coed, datblygu sgiliau a hyfforddiant achrededig. Cam nesaf yr hwb sgiliau yw datblygu cynlluniau gwirfoddoli a chyflogaeth â chymorth, sy'n gam sylweddol o ran darparu cyfleoedd go iawn i bobl ag anableddau dysgu ac iechyd meddwl i gyrraedd eu potensial.

Cafodd ein Canolfan Seibiant ar gyfer anabledd dysgu arolygiad cadarnhaol iawn gan AGC. Dyma ddyfyniadau o'r adroddiad sy'n tynnu sylw at yr effaith:

Dywedodd y staff wrthym, “Mae gweithio yma yn rhoi llawer o foddhad, rydym yn dîm da iawn gyda rheolwr gwych”.  Dywedodd aelod o'r teulu wrthym, “Mae'r staff yn Nhir Einon yn wych gyda X ac wedi gwneud iddo fe, a ninnau fel teulu, deimlo bod croeso mawr i ni. Mae'r gweithwyr proffesiynol yn canmol arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth hefyd – “Mae'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan [rheolwr] a'i staff cymorth heb ei ail”.

Mae'r buddsoddiad yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl wedi ein galluogi i sefydlu llwybr llesiant ar draws Sir Gaerfyrddin sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal.

Mae ein Gwasanaeth Llesiant yn darparu:

- Ymagwedd gynhwysol at gymorth iechyd meddwl
- Dull ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau.
- Y nod yw gwella gwytnwch ac iechyd meddwl oedolion ledled Sir Gaerfyrddin.

Mae'r galw am y gwasanaeth hwn yn cynyddu gyda rhai canlyniadau cadarnhaol yn cael eu hadrodd gan y rhai sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth hwn. “Mae'r gwasanaeth wedi rhoi gobaith i fi ar gyfer y dyfodol” “Mae fy ngweithiwr yn gefnogol iawn ac mae'n gwneud i fi deimlo'n bositif”.

Cyflwynodd y gwasanaeth llesiant hefyd mewn cynhadledd genedlaethol a gynhaliwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn 2023 fel rhan o ddigwyddiad arferion da.

Un o'r meysydd lle mae angen mwy o ffocws eleni yw atal hunanladdiad gan ein bod wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion o hunanladdiad a amheuir yn Sir Gaerfyrddin ac ar draws y rhanbarth. Yn 2023, fe wnaethom sefydlu ymateb cyflym i hunanladdiad a amheuir sy'n ein galluogi i estyn allan ar unwaith at y rhai yr effeithir arnynt a chynnig cefnogaeth. Cawsom arian grant hefyd i gyflogi swyddog i ymgymryd ag ymarfer mapio i nodi cefnogaeth a gwasanaethau yn ogystal â'r rhwystrau i'r rhai sy'n ceisio cymorth. Bydd y gwaith hwn yn llywio ein strategaeth atal sy'n datblygu. Mae atal hunanladdiad a hunan-niweidio ac iechyd meddwl plant ac oedolion ifanc yn flaenoriaeth eleni.

O ran Diogelu Oedolion, bu cynnydd mewn gwaith diogelu a chynnydd o ran cymhlethdod yr atgyfeiriadau, ond rydym yn parhau i gyflawni ac yn parhau i gael ein parchu'n fawr mewn perthynas â diogelu ac yn arwain llawer o'r prosiectau rhanbarthol. Mae'r Uwch-reolwr (Diogelu) bellach hefyd yn arweinydd Diogelu Corfforaethol sy'n cydnabod y safonau ymarfer uchel a gyrhaeddwyd ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Mae'r Tîm Camddefnyddio Sylweddau hefyd wedi gweld mwy o gymhlethdodau sy'n gysylltiedig â lefelau uwch o gamddefnyddio sylweddau, ond er gwaethaf y pwysau gweithredol, mae'r tîm yn parhau i fod yn arloesol ac yn datblygu sawl menter megis gwasanaethau a phrosiectau llety i'r rhai sydd â Niwed i'r Ymennydd yn Gysylltiedig ag Alcohol. Mae'r arian grant ychwanegol i gyflogi dau weithiwr adfer eisoes yn cael effaith. Maent yn gweithio'n uniongyrchol gydag unigolion i sefydlu a chynnal gweithgareddau bywyd pob dydd ystyrlon a hyrwyddo annibyniaeth.

Mae Cysylltu Bywydau Gorllewin Cymru yn darparu gwasanaeth lleoli oedolion mewn tri rhanbarth, sef Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

Rydym wedi bod yn gwella arferion gweithredol yn ogystal ag adolygu gweithdrefnau cyfredol. Rydym wedi diweddaru a lansio gwefan Cysylltu Bywydau newydd. Rydym wedi cynllunio sioeau teithiol recriwtio a grwpiau hyrwyddwyr am weddill y flwyddyn gyda'n partneriaid o Geredigion a Sir Benfro. Rydym wedi adolygu'r rhaglen hyfforddiant a datblygu ar gyfer Gofalwyr Cysylltu Bywydau ac rydym yn adolygu cynllun datblygu rhanbarthol Cysylltu Bywydau gyda'n partneriaid yn Sir Benfro a Cheredigion. Mae rheolaeth y tîm wedi newid ac maent wedi croesawu'r newidiadau hyn mewn modd cadarnhaol.

*Adborth gan Ofalwr Cysylltu Bywydau:*

*"Mae fy swyddog mor garedig a chymwynasgar. Dydw i ddim ar-lein felly mae hi'n dod â'i gliniadur i weithio arno. Does dim byd yn ormod o drafferth iddi. Dim ond galwad ffôn i ffwrdd yw hi. Dwi'n cael gwahoddiadau ar gyfer tripiau drwy'r post. Diolch yn fawr."*

Meddai K, " Mae'n dda byw yno, rwy'n hoffi gwnïo, celf diemwnt, nofio yn y ganolfan hamdden, y grŵp cerdded, Dance Gold ac rwy' wedi dechrau nôl yn ioga, maen nhw i gyd gerllaw yn y ganolfan hamdden, ac mae staff yn dod gyda fi i wneud yn siŵr fy mod i'n croesi'r ffordd yn saff, ac rwy'n gweld rhai o'm ffrindiau yno. Dw i'n gweld fy nheulu ar y penwythnos. Gofynnais am fyw yn y cartref a dywedodd K, "Rwy'n hoffi fy ngwely, fy ystafell ac rwy'n ei glanhau ac yn helpu gyda'r siopa. Rwy' wrth fy modd â'r holl bethau rwy'n eu gwneud yma". “Heddiw dwi'n mynd i Techniquest gyda'r lleill sy'n byw yma a'r staff, ni'n mynd ar y trên.

Dywedodd un rhiant, "Mae'n gwirfoddoli gwpwl o weithiau yn Ysbyty Tywysog Philip a phan wnes i alw yn gynharach yr wythnos yma, doedd ganddo ddim amser i siarad gan ei fod yn mynd allan i siopa bwyd i'r aelwyd. Mae e fel dyn newydd, mae'n ffynnu ac yn mwynhau cael mwy o annibyniaeth”.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae mwy o alw a chymhlethdod wedi bod yn nodwedd gyson yn yr holl dimau gwaith cymdeithasol ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Mae hyn yn cynnwys ein timau anabledd dysgu sy'n ymateb i effaith y pandemig ar unigolion a'u teuluoedd ac yn ymateb fwyfwy i gymhlethdod ac ymddygiad heriol. Er gwaethaf yr heriau, mae'r tîm wedi parhau i ddarparu gwasanaeth gwaith cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac wedi llwyddo i bontio nifer o unigolion i fyw'n annibynnol.

Mae ein tîm Anabledd 0-25 yn dîm ar y cyd sy'n cael ei reoli a'i ddarparu gyda Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Cyflwynwyd y tîm yn 2020 gyda'r nod o gyfyngu ar nifer y newidiadau i’r tîm ar gyfer plant anabl a dechrau cynllunio'n gynharach ar gyfer pontio i fyd oedolion. Er bod y model wedi bod yn llwyddiannus, mae'r tîm wedi wynebu galw digynsail am gymorth a chefnogaeth ers 2021, sef cynnydd o dros 40%.

Rydym hefyd wedi gweld niferoedd cynyddol o bobl ifanc â chyflyrau niwroddatblygiadol ac anghenion iechyd meddwl sydd angen lefel uchel o gymorth, y mae rhai ohonynt angen cymorth mewn cartrefi preswyl i blant. Yn 23-24 cefnogwyd 12 o bobl ifanc ar gost o fwy na £3 miliwn y flwyddyn yn y lleoliadau hyn. Ar ôl troi'n 18 oed, mae'r grŵp hwn o bobl ifanc fel arfer angen cymorth parhaus gan wasanaethau cymdeithasol i oedolion mewn lleoliad cymunedol.

Gall diffyg cyflenwad o gymorth a llety addas i'r grŵp hwn arwain at ddefnyddio darpariaeth breswyl i oedolion i geisio diwallu anghenion y person ifanc a rheoli risg. Yn y rhan fwyaf o achosion mae hyn yn ddiangen, gan ei fod yn rhy gyfyngol i bobl ifanc ac yn gostus iawn i'r awdurdod lleol.

Mae cefnogi gofalwyr i barhau yn eu rôl ofalu yn flaenoriaeth i'r is-adran; mae Hyrwyddwyr Gofalwyr ym mhob tîm gwaith cymdeithasol ac mae pob tîm naill ai wedi cwblhau neu wrthi'n cwblhau'r Gwobrau Buddsoddwyr mewn Gofalwyr.

Mae'r Tîm Camddefnyddio Sylweddau wedi cwblhau eu gwobr arian yn ddiweddar. Roedd sylwadau'r aseswyr yn gadarnhaol iawn. Roedd ansawdd y dystiolaeth, yn enwedig o fewn yr amserlenni, wedi creu argraff ar yr aseswyr sy'n dystiolaeth bellach bod y gwaith yn amlwg wedi'i sefydlu ym musnes y lleoliadau o ddydd i ddydd. “Llongyfarchiadau a daliwch ati gyda'r gwaith da yma”.

Y llynedd, gwnaethom gydnabod yr angen am wella ein hymgysylltiad â gofalwyr wrth ddatblygu gwasanaethau, felly yn gynharach eleni fe wnaethom gynnal cynhadledd i sicrhau dull cydgynhyrchiol o lywio'r gwaith hwn. Dywedodd cydweithiwr o Gofal Cymdeithasol Cymru, “Roedd hon yn enghraifft wych o gydgynhyrchu, ac roedd y diwrnod yn gyfle i gasglu gwybodaeth ansoddol, fel bod modd cynnwys lleisiau gofalwyr wrth gynllunio i ddarparu cymorth”.

Er mwyn rheoli'r galw yn y dyfodol, mae'n rhaid i ni sicrhau bod gennym strategaeth atal gadarn i ddarparu cyngor, gwybodaeth, cymorth, ymyrraeth gynnar ac ymateb amserol i'r rhai sydd mewn argyfwng. Bydd hyn yn caniatáu i ni, lle bynnag y bo modd, helpu pobl i fod yn annibynnol am gyn hired â phosib ac i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty a gofal preswyl.

Mae ein tîm dilyniant ac adolygu wedi gwneud cynnydd o ran camu pobl i lawr o ofal preswyl a hefyd wedi sicrhau bod unigolion yn byw mor annibynnol â phosibl ac nad ydym yn gorddarparu. Mae hyn hefyd wedi cael effaith sylweddol ar ein targedau arbedion. Bydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym hefyd yn cydweithio â'n partneriaid iechyd, y trydydd sector a'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a'u gofalwyr, ac rydym wedi gwrando arnynt wrth nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r dull cydweithredol hwn yn allweddol wrth gyflawni ein hamcanion gwasanaeth a chorfforaethol. Cael hyn yn iawn fydd ein prif ffocws ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

## Gwasanaethau Integredig

Mae'r Gwasanaethau Integredig yn is-adran eang ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'n helpu pobl hŷn a phobl ag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau i aros yn annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain, am gyhyd ag y bo modd.

Ailstrwythurwyd yr is-adran yn ystod rhan olaf 22/23 i greu pedwar llwybr a oedd yn golygu bod modd trefnu cymorth yn well i'r boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin ac yn ceisio sicrhau gwasanaethau teg. Y llwybrau hyn yw:

- Atal
- Gofal Rhagweithiol a Gofal wedi'i Gynllunio
- Llif y System a Gofal Brys
- Gofal Hirdymor

Mae 2023/24 wedi bod yn flwyddyn heriol a digynsail o ran y galw am wasanaethau a chymhlethdod pobl sydd angen gofal a chymorth. Rydym yn parhau i weld cynnydd o

3% flwyddyn ar ôl blwyddyn yn nemograffeg ein poblogaeth, gyda chynnydd penodol yn ein poblogaeth dros 75 oed.

Mae ein hysbytai yn parhau i gael eu llethu'n aml, ac oedolion hŷn bregus yw'r her fwyaf. Mae dros 70% o'r gwelyau sy'n llawn yn ein hysbytai yn bobl sydd yn y proffil oedran ac iechyd hwn. Mae pob diwrnod mae claf yn ei dreulio yn yr ysbyty yn achosi iddo golli màs y cyhyrau a dirywio'n gyffredinol, sy'n golygu yn aml bod yn rhaid iddo gael rhywfaint o ofal a chymorth i gael ei ryddhau. Felly, mae troi rownd wrth y drws ffrynt yn yr ysbyty, lleihau hyd y cyfnod ar gyfer derbyniadau angenrheidiol i'r ysbyty ac atal derbyn yn y lle cyntaf yn hanfodol i'n galluogi i reoli'r cynnydd cyflym yn y galw a'r newid demograffig a fydd yn effeithio arnom yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Bydd strategaeth gynaliadwyedd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2025 a bydd yn hanfodol i helpu'r awdurdod i gynllunio i ddygymod â'r pwysau yn yr hirdymor.

Cafodd timau Gwaith Cymdeithasol yn yr is-adran eu hailalinio a'u haildrefnu yng nghanol 23/24 gan symud timau o fod yn seiliedig ar ardal i strwythur Derbyn ac Asesu ym mis Tachwedd 23. Mae'r Tîm Derbyn wedi'i leoli ym Mhorth y Dwyrain, Llanelli, ynghyd â'r timau ymateb Gartref yn Gyntaf/Argyfwng. Mae'n darparu gwasanaeth ledled y sir. Mae yna hefyd dîm hirdymor Llanelli a thîm hirdymor Caerfyrddin ac mae ardal Aman Gwendraeth yn cael ei rhannu ar draws y ddau dîm.

Mae'r holl atgyfeiriadau ar gyfer gwaith cymdeithasol o'r gymuned yn mynd drwy'r Tîm Derbyn i gael eu sgrinio a'u brysbennu, a'r nod yw ymateb a rhoi mesurau ar waith i atal person rhag angen mewnbwn gan y timau hirdymor. Mae data'n dangos bod nifer yr achosion sy'n cael eu hatgyfeirio i waith cymdeithasol hirdymor wedi lleihau'n sylweddol ers y gwaith ailalinio.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein llwybr Gartref yn Gyntaf sydd wedi ennill sawl gwobr, sef dull partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Llesiant Delta. Mae hyn yn darparu un pwynt mynediad i unrhyw un sydd angen gofal canolraddol i gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty a hefyd i osgoi derbyn yn y lle cyntaf os bydd argyfwng, boed hynny'n feddygol neu'n gymdeithasol.

Mae Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn darparu cymorth drwy Ymarferydd Parafeddygol Uwch sy'n brysbennu'r pentwr '999' i nodi unigolion y gellid eu helpu i aros gartref gyda llwybrau gofal amgen ac maent yn llwyddo i helpu tua 70% o'r bobl maent yn delio â nhw i aros gartref. Cefnogir hyn yn sylweddol gan Ymateb Cyflym Llesiant Delta sy'n cefnogi'r rhai sy'n cwympo yn y gymuned ac yn llwyddo i gadw 96% o'r bobl y maent yn eu trin gartref. Yn gyffredinol, mae'r llwybr hwn yn cefnogi 200 o bobl y mis ar gyfartaledd, a fyddai fel arall wedi cael eu cludo i'r ysbyty. Mae hyn yn arwyddocaol o ran rheoli'r galw o safbwynt gofal cymdeithasol.

Lle mae angen gofal hirdymor, rydym wedi bod yn lleihau nifer y bobl sy'n aros am ofal cartref o'r ysbyty ac o'r gymuned. Ein blaenoriaeth yw cadw'r bobl hynny sy'n aros am ofal yn ddiogel, yn enwedig yn y gymuned. Mae hyn wedi bod yn gryfder penodol ac mae cyflwyno cydgysylltwyr gofal a chymorth, sydd bellach yn swyddi parhaol yn yr is-adran, wedi helpu'r timau gwaith cymdeithasol yn sylweddol i gadw mewn cysylltiad â phobl.

Mae darparu'r llinell gyfathrebu reolaidd hon gyda phobl a'u teuluoedd, wedi arwain at gyfraddau cwynion isel iawn yn ymwneud ag amseroedd aros am ofal a chymorth a'r gallu i roi mwy o flaenoriaeth i'r rhai a allai ddirywio yn ystod yr amser y maent yn aros i'w gofal a'u cymorth gael eu rhoi ar waith.

Rydym yn parhau i wneud y defnydd gorau o'r capasiti gofal sydd ar gael drwy ddefnyddio'r dull rhyddhau amser i ofalu i leihau pecynnau gofal lle bo hynny'n briodol a rhyddhau oriau gofal i'r rhai sydd eu hangen fwyaf. Mae Therapi Galwedigaethol wrth wraidd y model hwn, gan ddefnyddio eu harbenigedd i ddod o hyd i atebion o ran offer i leihau 2 ofalwr i 1. Bydd capasiti'r tîm hwn yn cynyddu ar gyfer 24/25 fel rhan o brosiect Buddsoddi i Arbed i sicrhau rhagor o arbedion effeithlonrwydd a sicrhau ein bod yn ddoeth wrth gomisiynu gofal.

Rydym wrthi'n datblygu Strategaeth Atal a fydd yn canolbwyntio ar Fyw'n Dda yn Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn ar draws Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Integredig. Dyma gyfle fel sir i ddeall ac amlygu beth mae byw'n dda yng nghyswllt iechyd a llesiant yn ei olygu i bobl Sir Gaerfyrddin a beth arall y gallwn ei wneud i gefnogi byw'n dda yn Sir Gaerfyrddin.

Bydd y strategaeth yn nodi 5 cyfle allweddol a fydd yn tynnu sylw at ein sefyllfa bresennol o ran atal a beth arall y gallwn ei wneud i wella, a byddwn yn datblygu cynllun gweithredu i weithredu'r cyfleoedd hyn.

Fel rhan o'r datblygiad hwn, byddwn yn ymgysylltu â'n cymunedau lleol o ran beth mae byw'n dda yng nghyswllt iechyd a gofal yn ei olygu iddynt hwy a beth y gellir ei wneud i wella cyfleoedd i fyw'n dda yn Sir Gaerfyrddin.

Mae presgripsiynu cymdeithasol yn wasanaeth cyfannol sydd ar gael ledled Sir Gaerfyrddin, a leolir mewn meddygfeydd. Mae'n derbyn atgyfeiriadau gan staff meddygfeydd, timau cymunedol, endidau'r trydydd sector, ac mae hefyd yn croesawu hunanatgyfeiriadau. Hanfod presgripsiynu cymdeithasol yw galluogi meddygon teulu, nyrsys, a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill i gyfeirio unigolion at amrywiaeth eang o wasanaethau lleol, anfeddygol.

Nod y dull hwn yw mynd i'r afael yn gynhwysfawr ag anghenion unigolyn, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddo a chefnogi ei ymreolaeth wrth reoli ei iechyd a'i lesiant. Mae mentrau presgripsiynu cymdeithasol yn aml yn cynnwys gweithgareddau amrywiol, sy'n cael eu hwyluso'n gyffredinol gan sefydliadau yn y sector gwirfoddol a chymunedol. Mae'r gwasanaethau hyn yn gwella canlyniadau i unigolion drwy roi mwy o opsiynau iddynt a rheolaeth dros eu bywydau, gan feithrin ymdeimlad o gymuned drwy gymryd rhan mewn grwpiau a gweithgareddau lleol.

Mae presgripsiynu cymdeithasol yn arbennig o fuddiol i unigolion sydd angen cymorth iechyd meddwl ychwanegol, y rhai sy'n rheoli cyflyrau cronig, yn teimlo’n unig neu’n ynysig, neu'n wynebu heriau cymdeithasol cymhleth sy'n effeithio ar eu llesiant. Rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth 2023, cafodd y Gwasanaeth Presgripsiynu Cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin gyfanswm o 1009 o atgyfeiriadau.

## Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

Roedd rhagair yr adroddiad hwn yn nodi'r heriau digynsail a wynebodd y gwasanaeth yn 2023 yn sgil niferoedd cynyddol o blant sy'n derbyn gofal, mwy o atgyfeiriadau, heriau cenedlaethol o ran y gweithlu, methiant yn y farchnad i ddarparu cartrefi plant a phwysau ariannol anochel ar y cyngor.

Mewn ymateb fe wnaethom ffurfio grŵp trawsnewid corfforaethol a aeth ati i gryfhau'r weledigaeth, cyflwyno trefniadau llywodraethu corfforaethol, goruchwyliaeth a chymorth i'r gwasanaeth dan arweiniad y Pennaeth Plant a Theuluoedd. Rwy'n cadeirio'r grŵp trawsnewid fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'r Tîm Uwch-reolwyr Plant sy'n arwain y ffrydiau gwaith gwella hefyd yn bresennol. Hefyd yn bresennol mae uwch-arweinwyr ym maes Adnoddau Dynol, Rheoli Rhaglenni, Cyllid a'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant. Mae cynnydd yn cael ei adrodd drwy'r tîm rheoli corfforaethol ac i'r Cabinet a rhoddir diweddariadau o leiaf bob pythefnos i'r aelod arweiniol dros y gwasanaethau cymdeithasol. O ganlyniad, mae lefelau digynsail o fuddsoddiad, gan gynnwys £7.5 miliwn mewn refeniw, wedi cael eu hymrwymo i'r gwasanaeth ar gyfer 2024 gyda rhaglen gadarn o newid a goruchwylio i fodloni'r gofynion newydd sy'n ein hwynebu.

Mae chwe ffrwd waith wedi'u sefydlu, gan gynnwys Cymorth Cynnar ac Asesu; Cymorth i Deuluoedd ac Adnoddau; Cartrefi Plant; Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches; Cymorth i Blant a Phobl Ifanc anabl a diwygio galluogwyr busnes a'r gweithlu.

**1. Cymorth Cynnar ac Asesu:**

Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda ac mae ar y trywydd iawn i sefydlu dull Cymorth Cynnar lle mae partneriaid statudol a'r trydydd sector yn cydweithio'n agos i helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd drwy roi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir iddynt hwy. Bydd y dull a rennir yn lleihau dyblygu a bylchau mewn cymorth. O ganlyniad, mae nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal wedi sefydlogi heb unrhyw gynnydd ers mis Mawrth 2024 ac yn parhau i fod yr isaf yng Nghymru. Sefydlwyd yr Hwb Cymorth Cynnar gan ddefnyddio adnoddau presennol ac mae Tîm Camu i Fyny, Camu i Lawr wedi'i sefydlu gan ddefnyddio arian twf. Hefyd, mae peilot tîm amlasiantaethol 14+ ar waith gan ddefnyddio adnoddau presennol gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Tai a phartneriaid yn y trydydd sector. Mae hyn bellach wedi sefydlogi yn y Timau Asesu ac mae'r cyfraddau ailasesu wedi gostwng wrth i ni ddiwallu anghenion yn well yn dilyn yr atgyfeiriad cyntaf.

**2. Cymorth i Deuluoedd ac Adnoddau:**

Mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud yn y maes hwn ac mae'r rhan fwyaf o'r elfennau ar y trywydd iawn i ddarparu cyfres o wasanaethau ymatebol, cydgysylltiedig sy'n darparu adnodd effeithiol i Weithwyr Cymdeithasol ei ddefnyddio, ac mae adolygiad meddwl drwy systemau o dimau Cymorth i Deuluoedd yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi'i gwblhau a'r camau nesaf bellach wedi'u datblygu. Penodwyd i swyddi newydd i gynyddu capasiti a mynd i'r afael â diffygion mewn ymarfer ym maes maethu, gan gynnwys Ymgynghorydd Panel, Swyddog Marchnata a Chyfathrebu a Swyddog Adolygu Annibynnol - Maethu. Rydym yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn targedau

cenedlaethol ar gyfer recriwtio gofalwyr maeth er bod prinder sylweddol o leoliadau maeth o hyd. Rydym ar y trywydd iawn i ddechrau proses ymgynghori â gofalwyr maeth ar newidiadau arfaethedig i'r fframwaith taliadau i'w roi ar waith erbyn y flwyddyn ariannol nesaf.

**3. Cartrefi Plant:**

Mae gennym uchelgeisiau enfawr yn y maes hwn i gael gwared ar y ddibyniaeth ar y sector preifat erbyn diwedd 2026. Mae hwn yn faes cymhleth ac mae ganddo risgiau sylweddol sy'n gofyn am ymatebion creadigol, brys. Bu cynnydd sylweddol er bod llawer o gynnydd i'w wneud o hyd. Rydym wedi penodi i 75% o'r swyddi ar gyfer ein cartrefi plant newydd (Hafan a Rhodfa Ross). Mae strwythur staffio Garreglwyd wedi cael ei adolygu ac mae proses recriwtio i swyddi ychwanegol bellach ar waith. Mae'r cais i gofrestru Hafan yng Nghaerfyrddin wedi cael ei gyflwyno ac mae ymweliad AGC wedi cael ei gynnal (Medi 2024). Mae'r gwasanaeth yn edrych ymlaen at gael ei gymeradwyo yn ystod yr wythnosau nesaf. Rwy'n falch o ddweud bod tri phlentyn wedi symud o drefniadau 'gweithredu heb gofrestru' brys, i gartrefi plant cofrestredig.

I gyflymu'r gwaith o ddatblygu cartrefi newydd, rydym yn cynyddu cymorth prosiect ar waith cyfalaf a chydymffurfiaeth o ran cofrestru, gan ddatblygu llety symud ymlaen, gan gynnwys llety â chymorth ar gyfer pobl sy'n gadael gofal. Nid yw Sir Gaerfyrddin wedi darparu cartrefi plant mewnol ar y raddfa hon ers blynyddoedd lawer ac mae angen meithrin sgiliau a gallu yn y gwasanaeth i ddatblygu a chynnal y ddarpariaeth hon ar y lefel uchaf posibl.

**4. Plant a Phobl Ifanc Digwmni sy'n Ceisio Lloches:**

Yn 2023 gwelsom dwf cyflym i fwy na 30 o unigolion newydd o gymharu â chyfartaledd hanesyddol o 5-6. Mae'r bobl ifanc hyn, sy'n 16-18 oed yn bennaf, yn cael eu hystyried yn blant sy'n derbyn gofal yn ôl y gyfraith. Cynyddodd y costau wrth i'r niferoedd gynyddu ac rydym wedi gweithredu'n gyflym i gefnogi'r bobl ifanc hyn yn lleol. Unwaith eto, ymatebodd y sector preifat yn gyflym drwy becynnau a oedd yn manteisio ar y prinder cyflenwad ac yn costio hyd at £1000 yr wythnos i ni. Nid ydym bellach yn defnyddio'r darparwyr hyn ac mae gennym bum eiddo yn Sir Gaerfyrddin sydd wedi'u sefydlu o'r dechrau lle mae 10 o bobl ifanc yn byw. Ers dechrau 2024, nid oes unrhyw leoliadau a gomisiynir yn cael eu defnyddio ar gyfer unrhyw atgyfeiriadau newydd o'r cynllun trosglwyddo cenedlaethol. Mae hyn wedi bod yn her enfawr, ond mae'r timau bellach yn darparu gofal lleol a chost-effeithiol i'r bobl ifanc agored i niwed hyn.

**5. Cymorth i Blant a Phobl Ifanc Anabl**

Mae'r galw am wasanaethau i blant ag anableddau wedi bod yn sylweddol ac er gwaethaf cyllid ychwanegol mae gwasanaethau yn mynd dros ben y gyllideb sydd ar gael. I ymateb i'r cynnydd yn y galw rydym wedi ehangu'r gwasanaeth gwaith cymdeithasol ac wedi gosod swyddi ychwanegol yn y Tîm Camau Bach (cymorth cynnar i blant anabl) i sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir. Mae swydd newydd wedi'i sefydlu fel bod asesiadau gofalwyr yn cael eu cynnal yn y Tîm Camau Bach. Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl ifanc 16–18 oed sy'n agored i niwed, sydd angen lleoliadau cost uchel ac sy'n niwroamrywiol.

Penodir i ddwy swydd gwaith cymdeithasol arbenigol newydd i helpu i reoli'r bobl ifanc hyn drwy'r Gwasanaethau Plant i Oedolion, gan reoli risg a chostau'n well. Blaenoriaeth allweddol yn 2024/25 ar gyfer y ffrwd waith hon fydd ymgynghori â theuluoedd ynghylch y newid polisi arfaethedig ar gyfer dyrannu adnoddau i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.

**6. Galluogwyr Busnes a'r Gweithlu**

Mae cynnydd da wedi'i wneud yn y maes hwn. Mae staffio yn y timau Gwaith Cymdeithasol wedi sefydlogi ac mae lefelau da o ran cadw Gweithwyr Cymdeithasol erbyn hyn. Cafodd staff gwaith cymdeithasol eu hailraddio i'r cynllun dilyniant ac mae gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso a phrofiadol bellach yn cael eu talu yn unol â'r 3 awdurdod uchaf yng Nghymru. Mae ein menter Tyfu ein Gweithwyr Cymdeithasol ein Hunain ar y trywydd iawn i ddarparu 31 o Weithwyr Cymdeithasol newydd yn ystod y 3 blynedd nesaf. Mae'r cynllun archwilio ffeiliau ar gyfer y flwyddyn ar waith a bydd yn cael ei fonitro. Mae system electronig newydd (Eclipse) wedi'i chyflwyno ar gyfer oedolion a bydd yn cael ei rhoi ar waith yn fyw yn y Gwasanaethau Plant o fis Chwefror 2025. Mae gennym hyder yn y system hon ar ôl osgoi methiant y system WCCIS (System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru) genedlaethol. Mae'r dyddiad 'mynd yn fyw' ar gyfer symud o CareFirst i Eclipse wedi'i bennu ar gyfer mis Chwefror 2025.


Bydd rhoi Eclipse ar waith a chanoli gwaith dadansoddi data a chymorth system yn 2024 mewn un gwasanaeth ar draws plant, oedolion a thai yn dwyn ynghyd y data sydd ar gael i reolwyr o ystod o ffynonellau i'w galluogi i reoli perfformiad yn well gyda data byw. Bydd hyn yn gwella ymhellach yn dilyn symud i Eclipse a sefydlu tîm perfformiad newydd ar draws gofal cymdeithasol i oedolion a phlant.

Wrth i'n staff newydd gymhwyso ennill profiad, bydd angen gwneud rhagor o waith i leihau nifer yr achosion plant sy'n cael eu cadw gan Reolwyr Tîm, Rheolwyr Tîm Cynorthwyol ac Ymarferwyr Plant a Theuluoedd. Mae hyn yn flaenoriaeth i ni. Mae'r ddarpariaeth o wasanaethau wedi parhau i weithredu'n dda drwy gydol y cyfnod hwn o heriau a newid ac mae hyn wedi'i nodi yn yr adrannau nesaf.

## Cymorth Cynnar ac Asesu


Ers pandemig Covid rydym wedi gweld pwysau digynsail ar y gwasanaeth lle mae teuluoedd wedi'i chael hi'n anodd yn dilyn y pandemig a'r argyfwng costau byw. O ganlyniad, rydym wedi gweld mwy o alw am wasanaethau ac achosion mwy cymhleth. Ers 2019/20 bu cynnydd o 68% yn nifer y cysylltiadau a'r atgyfeiriadau a gafwyd drwy ein Tîm Atgyfeirio Canolog 'drws ffrynt'. Mae'r cynnydd hwn, ynghyd â'r anhawster i recriwtio gweithwyr cymdeithasol, i gyd wedi ychwanegu at yr heriau yr oedd timau yn eu hwynebu yn 2023, er bod y gwasanaeth bellach wedi'i staffio'n llawn i raddau helaeth yn dilyn mentrau gweithlu yn 2024.


Mae'r graff yn dangos y galw ar y gwasanaethau o ran cysylltiadau ac atgyfeiriadau




| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Contacts | 4,590 | 4,912 | 4,756 | 4,259 | 5,785 | 6,418 | 7,170 | 7,248 | 7,015 | 7,644 | 9,625 | 11,783 | 13,400 |
| Referrals | 1,063 | 1,090 | 1,144 | 1,572 | 1,354 | 1,683 | 1,747 | 1,674 | 1,713 | 1,854 | 1,754 | 1,748 | 2,139 |
| Total | 5,653 | 6,002 | 5,900 | 5,831 | 7,139 | 8,101 | 8,917 | 8,922 | 8,728 | 9,498 | 11,379 | 13,531 | 15,539 |

Ers 2019 mae nifer y cyfarfodydd/trafodaethau Strategaeth hefyd wedi cynyddu ynghyd â nifer yr asesiadau.




Mae nifer yr asesiadau a gwblhawyd, a nifer y cyfarfodydd strategaeth amddiffyn plant hefyd wedi parhau i gynyddu.  Cwblhawyd 63% o fewn 42 diwrnod gwaith (nid oes modd cymharu'r canlyniad â'r blynyddoedd blaenorol oherwydd newidiadau mewn

gofynion casglu ac adrodd). Er y gwneir pob ymdrech i'w cwblhau o fewn terfynau amser, ansawdd yr asesiadau sydd bwysicaf, ac mae gwasanaethau plant wedi datblygu fframwaith ansawdd i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn cael eu cydgynhyrchu ac yn dangos llais y plentyn. Mae asesiadau hefyd yn dibynnu ar fewnbwn gan deuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gallu golygu nad yw'r asesiad yn cael ei gwblhau o fewn amserlenni hefyd. Bu cynnydd rhagorol yn 2024 gan leihau nifer yr ailatgyfeiriadau sy'n dangos yn glir ein bod yn diwallu anghenion. Mae sicrhau ein bod yn dal llais y plentyn mewn asesiadau yn well yn faes i'w wella.

Caiff asesiadau eu harchwilio'n fisol gan uwch-reolwyr i sicrhau bod y cynlluniau a luniwyd gan yr asesiadau yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â theuluoedd i bennu canlyniadau mae modd i deuluoedd eu cyflawni. Hefyd, mae uwch-reolwyr yn sicrhau bod asesiadau'n cynnwys gwaith uniongyrchol gyda phlant ac yn cofnodi dymuniadau a theimladau'r plentyn mewn perthynas â'i brofiadau bywyd a'r cymorth y mae'n ei dderbyn.

Mae'r asesiadau yn cael eu harchwilio i sicrhau eu bod yn adlewyrchu pum egwyddor Deddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, sef bod gan deuluoedd lais a rheolaeth dros ymyrraeth, bod y ffocws ar lesiant, bod gwaith yn cael ei wneud mewn partneriaeth â theuluoedd i gydgynhyrchu asesiadau a chynlluniau a bod dull amlasiantaethol ar waith. Hefyd, sicrhau bod teuluoedd yn cael ymyrraeth gynnar a chymorth ataliol i atal problemau rhag gwaethygu. Mae archwilio yn caniatáu i reolwyr dynnu sylw at ba welliannau y gellir eu gwneud ac unrhyw anghenion hyfforddiant ar gyfer y gwasanaeth a, phan nodir arferion da, bod adborth yn cael ei roi, sy'n helpu gweithwyr i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn eu cynorthwyo i ddatblygu ymarfer yn y dyfodol.

## Cymorth a Diogelu

Mae'r gwasanaethau plant a theuluoedd yn parhau i sefydlu'r **dull seiliedig ar berthynas** mewn gwaith cymdeithasol gan ddefnyddio dulliau systemig i wella gweithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd. Mae hyn yn caniatáu gwell ymgysylltu drwy asesu ac wrth ddarparu cymorth sydd yn ei dro yn gwella llesiant plant. Mae'r dull hefyd yn seiliedig ar *Signs of Safety* sy'n galluogi'r adran i osod nodau mewn partneriaeth â theuluoedd, sy'n sicrhau gwell ymgysylltu ac yn gwella canlyniadau i blant. Mae'r dull systemig yn parhau i gael ei gyflwyno i dimau eraill, megis y timau asesu plant a'r gwasanaeth mabwysiadu, gyda'r nod o annog gweithio mewn partneriaeth rhwng teuluoedd a'r timau gwaith cymdeithasol. Mae adborth gan deuluoedd yn nodi bod y dulliau hyn yn eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u clywed, sef prif egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn ogystal â bod yn un o werthoedd craidd Sir Gaerfyrddin.


Ymyrraeth gynnar yw'r allwedd i'n hymarfer drwy gynnwys gwasanaethau ataliol megis y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd a'r Tîm Ar Ffiniau Gofal sy'n cefnogi'r timau gofal plant sy'n darparu cymorth dwys. Rydym yn datblygu ein gwasanaethau ataliol i sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg gywir i gefnogi teuluoedd yn eu cymuned leol.

Mae nifer y plant ar y **gofrestr amddiffyn plant** wedi aros yn gyson, tra bod nifer y **plant sy'n derbyn gofal** wedi cynyddu'n sylweddol yn 2023/24 cyn sefydlogi rhwng Ebrill a Medi 2024. Er y gwneir pob ymdrech i gadw plant gartref gyda'u teuluoedd am gyhyd â phosibl, mae'r cyfnod diweddar wedi bod yn heriol i deuluoedd gan gynyddu'r risgiau mewn perthynas â cham-drin ac esgeulustod. Mae cofrestriadau a datgofrestriadau yn destun cynadleddau achos amlddisgyblaethol a chynlluniau diogelu cadarn. Yn ystod 2023/24 cynhaliwyd mwy na 90% o gynadleddau amddiffyn plant cychwynnol o fewn amserlenni statudol.

O blith y plant hynny a gafodd eu hychwanegu at y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn (144 o blant) roedd y nifer a oedd ar y gofrestr yn y 12 mis diwethaf yn isel, sef 6.9% (10 o blant). Rydym yn parhau i gynnal cyfarfodydd trothwy mewnol i ystyried a ydym yn defnyddio'r trothwy yn gyson ar gyfer ymchwiliadau Adran 47, asesiadau gofal a chymorth a chymorth cynnar, a sicrhau ein bod yn bodloni ein safonau diogelu cenedlaethol drwy ystyried ein data fel grŵp rheoli bob chwarter.

Fel awdurdod mae gennym y boblogaeth isaf o ran plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Mae rhaglen strategol wedi'i datblygu i sicrhau cyflenwad digonol o leoliadau ar gyfer plant mewn gofal yn Sir Gaerfyrddin. Mae ailalinio cyfrifoldebau tîm uwch-reolwyr gwasanaethau plant a theuluoedd yn uno ein gwasanaethau ymyrraeth â'n gwasanaethau llety a fydd yn sail i'r cam nesaf wrth ddatblygu'r gwaith hwn.

Yn 2022 cyflwynodd y Swyddfa Gartref Gynllun Trosglwyddo Cenedlaethol gorfodol ac ers hynny rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y **plant digwmni sy'n ceisio lloches** sydd bellach yn cyfrif am gyfartaledd o 12% o'n poblogaeth plant sy'n derbyn gofal. Mae'r niferoedd yn hanner cyntaf 2024 bellach wedi sefydlogi wrth i effaith ein gwaith trawsnewid gael effaith.




Mae'r graff yn dangos nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal (mae'r nifer sy'n derbyn gofal yn cynnwys plant digwmni sy'n ceisio lloches)

## Cymorth i Deuluoedd ac Adnoddau

Mae sefydlogrwydd addysg plant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod yn rhagorol a dim ond 3 phlentyn (2.1%) oedd angen symud ysgol yn ystod y flwyddyn. Mae gwaith caled yn cael ei wneud gyda gweithwyr cymdeithasol, ysgolion, gofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol eraill i gadw plant yn eu hysgol a'u cymuned wreiddiol. Fodd bynnag, oherwydd natur wledig Sir Gaerfyrddin, i gyflawni hyn, mae'n aml yn golygu costau trafnidiaeth uwch yr ydym wedi'u datblygu gyda gwasanaeth mewnol a buddsoddiad newydd. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a symudodd leoliad 3 gwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn wedi codi ychydig i 8.5% (22 o blant). Nid yw ein targed o 6.8% wedi'i gyflawni eleni, ond mae'r adran wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth (259 - gan gynnwys 31 o Blant Digwmni sy'n Ceisio Lloches a ddyrannwyd gan y swyddfa gartref) o'i gymharu â 190 y llynedd.

Mae prinder gofalwyr maeth yn lleol ac yn genedlaethol o hyd sy'n effeithio ar sefydlogrwydd lleoliadau. Roedd hyn yn effeithio ar ein gallu i ddiwallu anghenion plant ac ar adegau roedd yn lleihau ansawdd y lleoliadau y gallwn eu darparu. Cwblhawyd adolygiad sylfaenol o faethu, ac mae gwaith bellach yn cael ei wneud i gynyddu'r ystod a'r math o leoliadau i blant sy'n derbyn gofal drwy strategaeth breswyl yr adran a thrawsnewid y gwasanaeth maethu. Nid yw'r gwaith hwn wedi cael effaith lawn eto ac ni chafodd ei gwblhau mewn pryd i atal archwiliad gan AGC a amlygodd rai gwendidau hysbys yn y gwasanaeth. Cytunwyd ar gynllun gweithredu ynghyd â Strategaeth Marchnata a Recriwtio. Mae systemau taliadau ariannol newydd yn cael eu datblygu gan uno â systemau sefydledig ar gyfer oedolion. Mae gwaith cydgynhyrchu yn parhau gyda Maethu Cymru i gynllunio cyswllt â rheolwr marchnata newydd Maethu Cymru. Mae'r ymgyrch genedlaethol ddiweddar i recriwtio gofalwyr maeth wedi cael llawer o sylw gan y cyfryngau. Mae cynrychiolwyr Maethu Sir Gâr yn cyfrannu at y fenter genedlaethol 'croeso mawr' ac yn mynychu sesiynau cynllunio sy'n ymwneud â datblygu 'ap' technoleg.

Mae ein cynllun Llety â Chymorth mewnol sy'n cefnogi pobl ifanc ôl-16 wedi parhau i ddatblygu ac mae 7 darparwr bellach wedi'u sefydlu i gynnig lleoliadau. Mae angen datblygu lleoliadau pellach i gynyddu'r hyn a gynigir a chysylltu'r cymorth â'r capasiti cyffredinol ar gyfer lleoliadau ar draws yr adran.

Mae cynllun strategol a buddsoddiad mewn perthynas â datblygu cynnig gofal preswyl yn parhau. Mae dau eiddo wedi'u datblygu ac mae angen nodi trydydd un. Nod Hafan (Caerfyrddin) yw darparu gofal lefel uchel i 4 person ifanc lle mai'r dewisiadau eraill fyddai derbyn i'r ysbyty/amgylcheddau cleifion mewnol neu ddiogel. Rydym yn chwilio am ddarpariaeth yn Llanelli gyda'r nod o ddarparu cartref i bobl ifanc agored i niwed nad ydynt yn gallu byw gyda'u teulu.

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i ymdrechu i ddatblygu ei ymarfer ac yn ystod y misoedd diwethaf mae wedi bod yn canolbwyntio ar fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru (WEP) ar ôl lleoli plentyn gyda gofalwyr WEP. Nodwyd hefyd fod y gwasanaeth wedi datblygu ei ymarfer yn ymwneud â chyswllt drwy sicrhau sawl lleoliad lle mae plant wedi parhau i gael cyswllt uniongyrchol parhaus â rhieni a brodyr a chwiorydd geni. Mae Gwasanaeth

Mabwysiadu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i ddod o hyd i leoliadau mabwysiadu yn y rhanbarth ar gyfer plant o'r rhanbarth. Fodd bynnag, mae nifer yr ymholiadau yng Nghymru gan bobl fyddai'n hoffi mabwysiadu wedi lleihau'n gyffredinol, ac mae'r nifer yn is eto eleni. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol a'i dudalen we ei hun i recriwtio mabwysiadwyr o'r rhanbarth. Mae Swyddog Recriwtio - Marchnata newydd wedi'i benodi ac, wrth weithio ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, mae'r ffocws ar recriwtio mabwysiadwyr, yn enwedig ar gyfer grwpiau o frodyr a chwiorydd.

Dathlu Llwyddiant (plant sy'n derbyn gofal ac sydd â phrofiad o fod mewn gofal): Unwaith eto, eleni llwyddodd ein pobl ifanc yn academaidd gyda nifer yn cael canlyniadau rhagorol mewn TGAU, cyrsiau galwedigaethol, Safon Uwch a Graddau. Fodd bynnag, nid yw eu llwyddiant wedi'i gyfyngu i'r ystafell ddosbarth yn unig; ar y diwrnod dathlu llwyddiant eleni, roeddem yn falch o ddathlu cyflawniadau ac angerdd chwaraeon anhygoel ein pobl ifanc, eu creadigrwydd a'u celfyddyd, doniau cerddorol, caredigrwydd a haelioni. Mae bob amser yn bleser helpu ein pobl ifanc sy'n gadael gofal ifanc pan fydd ein hangen arnynt ond eleni cymerodd llawer ohonynt yr amser i'n helpu ni drwy roi o'u hamser i fod yn rhan o baneli cyfweld uwch-reolwyr. Dyluniodd un o'n pobl ifanc sy'n gadael gofal ein gwahoddiadau dathlu llwyddiant a rhannodd sawl person ifanc eu barn a'u profiadau o dyfu i fyny mewn gofal gyda'r nod o helpu i wella bywydau plant ifanc eraill sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Ni wnaeth caredigrwydd a haelioni ein pobl ifanc stopio yno wrth i lawer ohonynt hefyd gefnogi eu cymunedau eu hun drwy fynd i sesiynau codi sbwriel, ymweld yn rheolaidd â noddfa anifeiliaid Many Tears a gweithio mewn siopau elusen fel y Groes Goch.

## Anghenion Cymhleth a Phontio

Rydym wedi parhau i weld mwy o alw am asesu plant anabl. Rydym yn parhau i ddiwallu anghenion plant anabl a'u teuluoedd drwy ystod o seibiannau byr yn dilyn asesiad o angen. Rydym wedi cynyddu'r hyn yr ydym yn ei gynnig ar gyfer seibiannau byr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf drwy gynnig clybiau ieuenctid ychwanegol ar y penwythnos a chlybiau ar ôl ysgol ac wedi ymestyn ein darpariaeth gwyliau ar draws yr haf. Mae cyfleoedd seibiannau byr eraill yn cynnwys darparu taliadau uniongyrchol, seibiannau byr dros nos yn un o'n canolfannau seibiant a chomisiynu cymorth pwrpasol gyda darparwyr cofrestredig i gael mynediad at weithgareddau cymunedol neu ddarparu gofal cartref. Mae gennym gartref preswyl hirdymor i blant a phobl ifanc ag awtistiaeth, anabledd dysgu ac anghenion cymhleth (Garreglwyd). Darperir cyngor, cymorth a gwybodaeth arbenigol drwy ein Tîm Cymorth Cynnar/Tîm Camau Bach. Mae'r gwasanaeth wedi gweld cynnydd yn y galw am ein gwasanaethau ers i bandemig Covid effeithio ar deuluoedd â phlant anabl sydd wedi ceisio cymorth gan olygu bod gwasanaethau ataliol yn orlawn. O dan y rhaglen drawsnewid, byddwn yn parhau i ddatblygu a gwella ein cynnig yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Mae'r gwasanaeth Anabledd 0-25 wedi cydgynhyrchu Canllaw Pontio gyda rhanddeiliaid allweddol eraill. Canllaw electronig deinamig yw hwn sydd wedi'i gwblhau a bydd ar gael drwy ein gwefan a phlatfformau eraill ar y rhyngrwyd ar ôl ei lansio a bydd modd ei lawrlwytho hefyd.

Côd Ymarfer Awtistiaeth: Rydym yn parhau i weithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd ac Awdurdodau Lleol Ceredigion a Sir Benfro i sicrhau dull rhanbarthol cyson o asesu ein cydymffurfiaeth. Mae cynnydd wedi'i wneud o ran blaenoriaethau a nodwyd megis sicrhau bod amrywiaeth o wybodaeth am ymwybyddiaeth o awtistiaeth, a bod staff yn derbyn hyfforddiant priodol. Rydym yn gwella sut rydym yn cydgynhyrchu â phobl awtistig a'u rhieni/gofalwyr i lywio a chyflwyno'r hyfforddiant yn ogystal â llywio ein datblygiadau strategol a gweithredol. Nododd blaenoriaethau Pobl a Gwaith fod angen gwneud rhai gwelliannau i wybodaeth Sir Gaerfyrddin a'r modd mae'n cyfeirio pobl i dderbyn gwasanaethau asesu a bod angen ffynonellau cymorth a rhannu gwybodaeth nad ydynt ar y we hefyd. Mae gwaith yn cael ei wneud, ynghyd â dadansoddiad o anghenion hyfforddi, i sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i gwblhau asesiadau a chefnogi unigolion awtistig a'u teuluoedd. Bydd y blaenoriaethau hyn a blaenoriaethau eraill yn ffurfio'r Cynllun Gweithredu Awtistiaeth Lleol a gellid eu datblygu ymhellach yn dilyn ail gam yr asesiad Pobl a Gwaith a fydd yn cynnwys barn defnyddwyr gwasanaeth a bydd yn cael ei ddarparu i'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol yn ddiweddarach eleni.

## Y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Mae gofal plant Dechrau'n Deg wedi parhau i gael ei ehangu'n raddol i ddarparu gofal plant o ansawdd a ariennir i ragor o ardaloedd ledled Sir Gaerfyrddin. Mae dros 1170 o godau post wedi'u hychwanegu hyd yn hyn ac mae 12 o'r 13 ardal a nodwyd bellach wedi'u cofrestru'n llawn ar gyfer Dechrau'n Deg. Mae ardaloedd newydd wedi'u targedu gan sicrhau bod y darparwyr gofal plant yn cael eu comisiynu i gofrestru plant cymwys ar gyfer gofal plant ac mae ymweliadau wedi'u cynnal â darparwyr posibl i hyrwyddo Dechrau'n Deg Sir Gaerfyrddin. Caiff teuluoedd cymwys eu hysbysu drwy broses postio cardiau post wedi'i thargedu ac yna fe'u gwahoddir i lenwi ffurflen hunangofrestru. Mae'r system hunangofrestru newydd hon i rieni wedi bod yn llwyddiannus iawn, ac rydym yn falch o ddweud ein bod wedi derbyn 332 o geisiadau gan ddefnyddio'r system hon hyd yn hyn. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr gofal plant wrth i ni barhau i ehangu gan eu gwahodd i gofrestru eu mynegiant o ddiddordeb i ddarparu gofal plant Dechrau'n Deg. Mae ein Ap Dechrau'n Deg yn parhau i fod yn llwyddiannus ac mae wedi cael ei fireinio gan ei gwneud hi'n haws nag erioed i'n rhieni gael gwybodaeth a chyngor defnyddiol yn ogystal â gweld beth sy'n digwydd yn eu cymunedau lleol. Mae ganddo swyddogaeth gwirio codau post newydd i wneud y broses gofrestru'n haws. Mae ein swyddog Iaith Gymraeg wedi dechrau gweithio gyda phob darparwr gofal plant ar draws Dechrau'n Deg gan hyrwyddo diwylliant, amgylcheddau a'r iaith Gymraeg. Mae cyfarfodydd is-grŵp comisiynu ehangu a chyfalaf yn parhau i adolygu cynnydd a chynllunio'r camau nesaf.

**Yn ystod 2023/24:**

- Cafodd 97% o deuluoedd sydd ag anghenion lles cymdeithasol ychwanegol cysylltiedig â thlodi, sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg, ymyriadau amser penodol gan y Tîm Dechrau'n Deg ehangach.
- Cafwyd cyfradd absenoldeb anawdurdodedig o 1.5% yn unig mewn lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg rhad ac am ddim a neilltuwyd ar gyfer plant 2-3 oed cymwys i'w paratoi ar gyfer yr ysgol.

- 78.1% oedd presenoldeb plant mewn lleoliad gofal plant di-dâl Dechrau'n Deg a neilltuwyd ar gyfer plant cymwys 2-3 oed. Rydym yn falch ein bod wedi rhagori ar y targed o 75%.

**Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf:** Mae naw prosiect Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu cymorth ataliol hanfodol i blant, pobl ifanc a theuluoedd ledled y sir. Y prif anghenion yw tlodi, digartrefedd, tor-perthynas, llesiant emosiynol gwael, gorbryder, ymddygiad heriol plant, niwroamrywiaeth, presenoldeb gwael yn yr ysgol a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae amrywiaeth o ymyriadau, digwyddiadau a gweithgareddau wedi cael eu darparu, gan gynnwys sgiliau bywyd, garddio, coginio, diogelwch, pecynnau llesiant, hamperi, dillad, cyngor ar ddyledion a banciau bwyd cymunedol, i enwi ond ychydig.

**Yn ystod 2023/24:**

- Cefnogwyd 10,461 o unigolion drwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, gyda 6234 (60%) ohonynt yn unigolion newydd.
- Caewyd 653 Fframwaith Asesu Teuluoedd ar y Cyd un asiantaeth gyda symudiad ymlaen o 611 (94%) ar yr offeryn pellter a deithiwyd.
- Cafodd 20 o achosion eu camu i fyny i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a chafodd 70 o achosion eu camu i lawr o'r Gwasanaethau Cymdeithasol i'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

## Plant ac Addysg Integredig

Mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i alinio gwasanaethau i lawer o blant agored i niwed drwy'r trefniant integredig ag Addysg a Gwasanaethau Plant:

**Addysg Ddewisol yn y Cartref:**

- Ar hyn o bryd mae gan Sir Gaerfyrddin 657 o ddysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref (mae'r nifer hwn yn amrywio ac yn tueddu i fod yn uwch ar ddiwedd tymor yr haf).
- Mae staff wedi gweithio'n effeithiol gyda theuluoedd ac yn ystod 2023/24 cafodd 79.25% o blant Addysg Ddewisol yn y Cartref ymweliad blynyddol.
- Safodd 14 o bobl ifanc TGAU Celf yn haf 2023 a chafodd 13 ganlyniadau A*-C.
- Safodd nifer o bobl ifanc amrywiaeth o arholiadau eraill gan gynnwys Iaith Saesneg, Mathemateg, Cemeg, TGCh, Bioleg Ddynol a Rheolaeth Amgylcheddol, a chafodd pob un Radd 7-9.
- Bydd 13 o bobl ifanc yn sefyll arholiadau yn haf 2024.
- Mae'r grant Addysg Ddewisol yn y Cartref a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i ddarparu gweithgareddau ac adnoddau i deuluoedd fel bod gan y bobl ifanc brofiad dysgu mwy cyfoethog. Mae'r rhain yn cynnwys: Mathemateg, Gwyddoniaeth, Saesneg, Garddwriaeth, a dysgu yn yr awyr agored yng Ngardd Fotaneg Cymru (cynradd i TGAU), gwersi Cymraeg, grŵp

Daearyddiaeth, Bookworms (grŵp theatr ac iaith), Rebel Warriors (llesiant, sgiliau bywyd, gwydnwch, hunangred, meithrin tîm, gwaith gyda phlant â gorbryderon), mynediad at ganolfan arholi, mynediad at gymwysterau sgiliau hanfodol achrededig (ASDAN), mynediad at danysgrifiad i Twinkl, a chyllid i ganiatáu i grŵp Addysg Ddewisol yn y Cartref gynnal grŵp Addysg yn y Cartref Llyn Llech Owain. Gofynnwyd am farn rhieni drwy holiadur a dywedodd llawer fod y ddarpariaeth a gynigir yn ddefnyddiol iddynt fel teuluoedd.

Cyhoeddwyd canllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2023 a llawlyfr i deuluoedd ynghyd â dau sesiwn ymgysylltu sydd wedi'u cynnal gyda Llywodraeth Cymru a theuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref ym mis Mehefin 2023. O ystyried y canllawiau newydd mae ein tîm Addysg Ddewisol yn y Cartref wedi cryfhau ein gweithdrefnau lleol i sicrhau bod ysgolion, teuluoedd a dysgwyr yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau pan ystyrir Addysg Ddewisol yn y Cartref.  Mae newid i'r 'ffurflen ymadael' yn ein galluogi i ddeall yn well y rhesymau pam mae rhieni'n dewis Addysg Ddewisol yn y Cartref a chael gwybodaeth am y plentyn cyn iddo ddod yn un Addysg Ddewisol yn y Cartref.

Osgoi Ysgol ar Sail Emosiwn (EBSA) – rydym wedi casglu gwybodaeth am 'beth sy'n gweithio' wrth gefnogi EBSA i lunio pecyn cymorth a hyfforddiant 'arferion gorau' Sir Gaerfyrddin ar gyfer ysgolion ac asiantaethau cymorth.  Mae'r prosiect pecyn cymorth yn datblygu dealltwriaeth o EBSA yn ysgolion uwchradd Sir Gaerfyrddin gan ddarparu mewnbwn seicolegol yn ymwneud ag anghenion EBSA.  Ymgysylltwyd ag 11 (o blith 12) o ysgolion uwchradd rhwng Ionawr 2023 a Mawrth 2024.  Rydym yn gweithio ar gynyddu ymwybyddiaeth mewn ysgolion a chydag asiantaethau eraill drwy gymorth ymgynghori a hyfforddiant.  Mae diwrnodau arferion da EBSA wedi cael eu cynnal am y ddwy flynedd ddiwethaf ar gyfer pob EBSA a bydd hyn yn parhau yn ystod haf 2024.

Mae Dull Ymwybodol o Drawma yn cael ei roi ar waith yn ein hysgolion fel ffordd o gefnogi anghenion perthynol a bugeiliol pobl ifanc a staff.  Mae hyfforddiant diploma Ysgolion Ymwybodol o Drawma y DU (TISUK) ar gyfer staff ysgolion yn cael ei gydgysylltu gan y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a chynhelir goruchwyliaeth deirgwaith y flwyddyn i gynnal cofrestriad ymarferwyr.  Mae'r cwrs hwn wedi cael ei groesawu ac mae angen i fwy o staff gael eu hyfforddi ond mae'n dibynnu ar gyllid grant.  Mae ysgolion yn defnyddio'r dull fel ffordd o benodi 'oedolyn sydd ar gael yn emosiynol' yn yr ysgol i gysylltu â'r plentyn/person ifanc a'r teulu, sy'n gwneud gwahaniaeth o ran sut mae teuluoedd sy'n cael cymorth yn teimlo.

## Llesiant Delta - Gofal trwy Gymorth Technoleg

Sefydlwyd Llesiant Delta, gwasanaeth Llinell Gofal y cyngor gynt, fel Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol yn 2018 ac mae wedi ehangu'n sylweddol yn ystod y pum mlynedd diwethaf i helpu i fynd i'r afael â'r galw cynyddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol drwy ddatblygu atebion a gwasanaethau arloesol sy'n seiliedig ar dechnoleg i gefnogi cleifion sy'n gadael yr ysbyty yn ogystal â phobl yn y gymuned – gan drawsnewid y ffordd y mae gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu yn y pen draw. Pan sefydlwyd y cwmni, y nod oedd cynnig gwasanaeth gwell i breswylwyr Sir Gaerfyrddin, yn ogystal â darparu mwy o gyfleoedd cyflogaeth ac ailfuddsoddi incwm a grëwyd mewn gwasanaethau ychwanegol neu gefnogi gwasanaethau gofal

cymdeithasol eraill y cyngor. Mae'r cwmni wedi cyflawni hyn a mwy, yn sgil dod yn Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Gofal trwy Gymorth Technoleg a chynyddu ei weithlu o 47 aelod o staff i fwy na 170.
Mae Llesiant Delta yn darparu un pwynt mynediad ar gyfer ymholiadau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yn Sir Gaerfyrddin, gan weithio ochr yn ochr â thîm amlddisgyblaethol o weithwyr proffesiynol yn y gwasanaeth Gartref yn Gyntaf. Yn ystod 2023/24 ymdriniodd y tîm ag 20,456 o ymholiadau, a chafodd 42% o'r rhain eu datrys ar y pwynt cyswllt cyntaf/heb fod angen cymorth statudol pellach. Mae'r ffigur atal hwn wedi gwella'n gyson flwyddyn ar ôl blwyddyn o linell sylfaen o tua 8% pan sefydlwyd y gwasanaeth am y tro cyntaf tua chwe blynedd yn ôl.

Mae gwasanaeth CONNECT yn parhau i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl; gan gynnal a gwella iechyd a llesiant ein trigolion hŷn ac agored i niwed â'u helpu i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r prosiect yn cefnogi 2,258 o unigolion ledled y sir drwy asesiad manwl o angen, darparu technoleg bwrpasol, galwadau rhagweithiol rheolaidd a mynediad at wasanaeth ymateb cymunedol 24/7. Mae cyfanswm o 24,721 o alwadau rhagweithiol wedi'u gwneud i gefnogi unigolion sy'n teimlo'n unig neu y mae eu hiechyd yn dirywio. Mae'r tîm ymateb cymunedol wedi mynd allan i ymateb i 4,698 o alwadau i gynorthwyo trigolion, ac roedd angen uwchgyfeirio dim ond 6% o'r galwadau hyn i'r gwasanaethau brys, gan atal galwadau diangen am ambiwlans a derbyniadau i'r ysbyty.

Yr amser ymateb ar gyfartaledd yw 24 munud, ac mae 94% o'r galwadau yn cael ymateb ar y safle o fewn 45 munud. Mae lefel y bregusrwydd a'r angen wedi bod yn eithaf gwahanol i'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. I ddechrau, y bwriad yn bennaf oedd helpu unigolion a oedd yn dechrau sylwi ar rywfaint o ddirywiad ac eisiau rhywfaint o ymyrraeth gynnar, lle mai dim ond 5% o gleientiaid fyddai yn yr haen uchaf o angen. Fodd bynnag, mewn gwirionedd mae tua 23% o'r cleientiaid yn yr haen uchaf. Mae hyn wedi golygu bod lefel y cymorth i'r cleientiaid hyn wedi bod yn sylweddol uwch na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, y fantais yw ei bod yn helpu i gefnogi gwasanaethau statudol o ran rheoli'r galw.

Mae'r gwasanaeth wedi datblygu'n sylweddol yn Sir Gaerfyrddin ac yn darparu gwasanaeth 'pontio brys' am hyd at saith diwrnod i gefnogi rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Mae cyfanswm o 1,082 o gleifion wedi cael eu rhyddhau o'r ysbyty bedwar diwrnod yn gynharach ar gyfartaledd oherwydd y gwasanaeth ers iddo ddechrau ym mis Rhagfyr 2021, gan arbed 2,912 o ddiwrnodau gwely ar gost o £1,323,795 i'r gwasanaeth iechyd; a darparu 6,585 o ymweliadau gofal ac 83 o deithiau cludo cleifion, gan leihau'r angen am drafnidiaeth ambiwlans ysbyty a drefnir ymlaen llaw.

Hefyd, mae'r tîm yn darparu cymorth gofal cymdeithasol y tu allan i oriau i oedolion hŷn, ac wedi delio â 259 o atgyfeiriadau y llynedd, yr oedd 104 ohonynt yn ymwneud â methiant gofal a oedd angen sylw ar unwaith. Cynhaliodd yr ymatebwyr asesiadau ar y safle i bennu anghenion, gan sicrhau bod pecynnau gofal a chymorth yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu unigolion rhag niwed pellach neu ddirywio.

Heb os nac oni bai, y maes ffocws mwyaf i'r cwmni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd cyflwyno ei blatfform monitro ac ymateb cwmwl digidol newydd sy'n derbyn larymau, y cyntaf o'i fath yng Nghymru, a lansiwyd ddwy flynedd cyn diffodd analog.

Mae'r cwmni wedi bod yn cynllunio ar gyfer y newid digidol yn ystod y pum mlynedd diwethaf a bydd y platfform newydd, ynghyd â'r offer digidol diweddaraf, yn sicrhau bod Llesiant Delta ar flaen y gad o ran technoleg ddigidol. Bydd defnyddio offer a systemau digidol newydd o fudd i'n cymunedau agored i niwed ac yn cefnogi cleientiaid wrth iddynt symud i wasanaeth ffôn digidol cyn diwedd 2025. Bydd hefyd yn ein helpu i wella'r ffordd yr ydym yn defnyddio'r data yr ydym yn ei gasglu ac yn galluogi dull mwy rhagweithiol o ymdrin â gofal trwy gymorth technoleg.

Mae cam dau strategaeth trawsnewid digidol Llesiant Delta yn ymwneud â rhannu data ar draws darparwyr iechyd a gofal i alluogi golwg gyfannol ar unigolyn, gan roi gwell dealltwriaeth o sefyllfaoedd pobl, a chefnogi ymyrraeth gynharach a galluogi penderfyniadau mwy gwybodus i ddarparwyr gofal. Bydd hyn yn helpu unigolion cyn gynted â phosibl ac yn lleihau'r angen am gymorth iechyd neu ofal cymdeithasol mwy acíwt.

Mae Llesiant Delta yn parhau i arwain y gwaith o ddatblygu technolegau newydd ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd. Yn ogystal â'r rhaglen teleiechyd sefydledig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer rheoli cyflyrau hirdymor megis clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) a methiant y galon, mae'r cwmni'n datblygu capasiti i ddefnyddio technoleg lloeren i ddarparu cysylltedd brys i'w ymatebwyr cymunedol; ac yn defnyddio technoleg GPS i alluogi pobl i barhau'n egnïol ac yn ddiogel yn y cymunedau lle maent yn byw, gan weithio'n agos gyda'r tîm Seilwaith Digidol fel rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae Llesiant Delta hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiect Pentre Awel drwy ddatblygu a gweithredu technolegau i alluogi'r rhai sy'n byw yn y pentref iechyd a llesiant i fyw'n annibynnol a byw â chymorth.

## Darpariaeth Gofal Uniongyrchol y Cyngor a Gofal a Gomisiynir

Mae'r Cyngor yn comisiynu mwy na £90M o ofal a chymorth i oedolion ac mae'r sector a gomisiynir yn darparu tua 89% o'r farchnad. Ein huchelgais yw sicrhau bod gennym economi gofal gymysg i ddiwallu anghenion ein poblogaeth ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae'r asesiad o anghenion y boblogaeth a'r WWCP-MSR-Final-Feb-2022.pdf yn tynnu sylw at yr heriau niferus sy'n wynebu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Wrth i'r pwysau gynyddu mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod gennym farchnad fywiog a chynaliadwy i ddiwallu anghenion.

Mae'r farchnad yn risg i ni wrth i'r sector preifat gyfuno i greu cwmnïau mwy a gefnogir yn aml gan gronfeydd rhagfantoli neu farchnadoedd rhyngwladol sy'n monopoleiddio marchnadoedd lleol a phrisiau.

Mae'r farchnad yn parhau i fod yn fregus ac mae'r pwysau ar y gweithlu yn parhau. Yn ystod 2023/24 caewyd cartref gofal arall gan golli 22 o welyau o'r farchnad, felly mae cael gwasanaeth mewnol i ddarparu rhywfaint o sefydlogrwydd yn y farchnad yn ogystal â gwytnwch i liniaru risg pan welwn fethiant yn y farchnad yn hanfodol ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn parhau i ddatblygu rhaglen waith ailgomisiynu heriol sydd wedi cynnwys adnewyddu'r fframwaith gofal cartref a ddenodd ddarparwyr ychwanegol i'r farchnad. Mae'r gwaith o ddatblygu microfusnesau yn y sir yn mynd rhagddo'n dda ac mae dros 30 o ficrofusnesau bellach wedi'u sefydlu ledled Sir Gaerfyrddin.

Mae microfusnesau yn gallu cefnogi'r sector a gomisiynir ac yn aml yn ategu yn ogystal â llenwi'r bylchau mewn ymateb i wasanaethau mewn sir wledig iawn. Maent hefyd yn rhoi mwy o ddewis i bobl gyda Thaliadau Uniongyrchol o ran sut maent yn dymuno i'w hanghenion gael eu diwallu.

Ein nod yw cryfhau ein dull strategol o lunio'r farchnad ac mae'n flaenoriaeth allweddol ar gyfer 2024/25.

Mae rheoli'r galw wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth allweddol ac yn dilyn gwaith ymgysylltu cynhwysfawr â'r trydydd sector, gwnaethom ailgynllunio ein dull gweithredu ac alinio ein gwariant trydydd sector yn strategol. Mae cyflwyno gwasanaethau ataliol cymunedol newydd yn rhan o fodel gofal a chymorth cymunedol ehangach, gan ddarparu'r strwythur a'r llwybrau canolog i gymorth.

Dyluniwyd y model i greu cysylltiadau di-dor rhwng gwasanaethau sy'n helpu pobl o bob oed i aros yn annibynnol yn eu cymunedau am gyhyd â'u bod yn gallu neu'n dymuno ac, os oes angen, cael mynediad at ofal a chymorth mwy ffurfiol pan ddaw'r amser. Dylid nodi bod gofalwyr di-dâl yn cael eu cynnwys fel rhan o'n fframwaith ataliol gan ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gydgynhyrchu a chyd-ddylunio ein cynnig seibiannau byr a seibiant i ofalwyr di-dâl.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ehangu cyfran yr awdurdod lleol o'r farchnad ym mhob maes gofal.

## Eiriolaeth

Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Ranbarthol 2023-2027

Mae gwasanaeth Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol ar gael yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer pobl ag anghenion gofal a chymorth neu eu gofalwyr sy'n ymwneud ag Asesu, Cynllunio ac Adolygu Gofal Cymdeithasol a Phrosesau Diogelu ac mae'n cael ei ddarparu gan 3 CIPA (Gwasanaeth Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol y Tair Sir).

Mae 3 CIPA yn cynnwys 5 darparwr unigol, gan gynnwys:

1. Eiriolaeth Gorllewin Cymru (yn arwain y gwasanaeth)
2. Canolfan Byw'n Annibynnol Dewis
3. Age Cymru Dyfed
4. Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin
5. Ymddiriedolaeth Gofalwyr Croesffyrdd Gorllewin Cymru.

Mae 3 CIPA hefyd yn darparu un pwynt cyswllt pwysig ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth, sy'n ceisio helpu i nodi'r gwasanaeth eiriolaeth mwyaf priodol sy'n diwallu

anghenion unigolyn orau.   Mae profiad helaeth o ddarparu gwasanaethau eiriolaeth o ansawdd yn y bartneriaeth sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau eiriolaeth cymunedol a statudol arbenigol eraill a gwasanaethau cymorth eraill ledled y rhanbarth.

Ar y cyd â phartneriaid eraill 3 CIPA a Phrosiect Gobaith (prosiect cenedlaethol Age Cymru), mae'r eiriolwyr 3 CIPA wedi bod yn rhan o ddarparu a mynychu hyfforddiant i eiriolwyr ledled y rhanbarth ac yng Nghymru.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae hyn wedi cynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:

- Hyrwyddo'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant – a gyflwynwyd gan yr Athro Luke Clements
- Egwyddorion Eiriolaeth – Annibyniaeth a Grymuso
- Ymarfer Adfyfyriol mewn Eiriolaeth Annibynnol
- Ffiniau Ymarfer Proffesiynol a Phersonol – Egluro'r Diben
- Cadw Cofnodion a Diogelu Data, Rhannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd
- Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth Penodol i Eiriolaeth
- Hyfforddiant Diogelu gan gynnwys *Signs of Safety*
- Hyfforddiant Eiriolaeth Heb Gyfarwyddyd
- Hyfforddiant Ymyriadau Hunanladdiad ASIST
- Hyfforddiant *Talking Mats* a *Total Communication*

Hefyd, mae'r partneriaid wedi darparu amrywiaeth o hyfforddiant ymwybyddiaeth o eiriolaeth i weithwyr cymdeithasol, iechyd a'r trydydd sector ledled y rhanbarth. Nod yr hyfforddiant hwn yw cefnogi atgyfeiriadau gan asiantaethau cymdeithasol, iechyd a'r trydydd sector. Bydd y rhaglen hon yn parhau drwy gydol 2024.

Mae sefydliadau partner yn mynychu ystod lawn o fforymau a rhwydweithiau ledled y rhanbarth gyda'r nod o gael adborth ar ansawdd y ddarpariaeth eiriolaeth ynghyd â chynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau eiriolaeth sydd ar gael yn y sir a'r rhanbarth ehangach.

## Gofal Preswyl


Rydym yn parhau i gynnal ein darpariaeth gofal preswyl fewnol i gefnogi preswylwyr yn Sir Gaerfyrddin, ac mae 7 cartref preswyl ar gyfer pobl hŷn a phobl ag anableddau corfforol yn cael eu gweithredu'n fewnol. Rydym wedi parhau i ailfodelu'r ddarpariaeth hon i helpu i lenwi rhai o'r bylchau yn y farchnad a nodwyd yn Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad a bydd hyn yn parhau dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r buddsoddiad parhaus yn Nhŷ Pili-Pala, adain o Gartref Gofal Llys y Bryn, fel uned camu i lawr ag 14 gwely wedi bod yn hynod fuddiol i'r rhai sy'n gadael yr ysbyty o ran lleihau eu hanghenion gofal hirdymor. Ochr yn ochr â hyn, mae gennym raglen

adnewyddu ar waith ar gyfer ein darpariaeth fewnol i'n galluogi i wella'r hyn a gynigir i'n preswylwyr.

Mae recriwtio wedi gwella'n aruthrol yn 2024, ond rydym yn parhau i fynd ati'n rhagweithiol i farchnata ein swyddi gwag i lenwi bylchau pan fyddant yn codi.

Ochr yn ochr â'n buddsoddiad yn ein darpariaeth bresennol, rydym wedi dechrau datblygu ein ffordd o feddwl am ein strategaeth hirdymor ar gyfer gofal seiliedig ar welyau. Rydym yn gwybod bod gennym her ddemograffig sylweddol o ran ein poblogaeth sy'n heneiddio a'r cynnydd yn y galw am ofal seiliedig ar welyau o ganlyniad i hynny wrth i'n poblogaeth hŷn sydd ag anghenion mwy cymhleth gynyddu. Heb fuddsoddiad, rydym hefyd yn gwybod na fyddwn yn gallu diwallu'r anghenion sy'n deillio o'r her ddemograffig honno.


Felly, rydym wedi dechrau bwrw ymlaen â'n cynlluniau i wynebu'r her hon sy'n cynnwys ailddatblygu hen gartref preswyl yn y sir gyda 60 o welyau newydd yn ogystal â chynlluniau cwmpasu ar gyfer cartref nyrsio fel rhan o ddatblygiad Pentre Awel yn Llanelli gyda 72 o welyau.




Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi cadarnhau ein bod fel Awdurdod Lleol yn gallu rhedeg cartref nyrsio (yn hytrach na gofal preswyl yn unig). O ganlyniad, rydym bellach yn ystyried yr opsiynau cyflawni sydd ar gael i wneud hyn gan y byddai'r gallu i gynnig gofal nyrsio yn ased sylweddol wrth reoli anghenion mwy cymhleth poblogaeth sy'n heneiddio.


O ran Gofal Preswyl i Blant, rydym wedi parhau i gynnal ein darpariaeth bresennol yn ogystal â datblygu ein cynlluniau i fynd i'r afael â mandad Llywodraeth Cymru i ddileu cartrefi plant sector preifat erbyn 2026. Mewn ymateb i hyn, rydym wedi agor dau gartref plant newydd yn y sir ac rydym wrthi'n datblygu cartref arall. Bydd hyn yn ein galluogi i ddod â'r plant hynny sydd angen cymorth yn nes at eu cartref a hefyd yn ein helpu i reoli costau.  Mae hon yn flaenoriaeth allweddol i'n rhaglen drawsnewid yn 2024/25.

Rydym yn parhau i reoli'r galw yn dda mewn gofal cartref ac wedi lleihau amseroedd aros i'r hyn yr oeddent cyn y pandemig.  Mae gwelliannau i'r asesiadau a'r ddarpariaeth wedi golygu bod y gwasanaeth wedi parhau'n hyfyw ac yn diwallu anghenion y rhai mwyaf anghenus yn dda. Dangosir hyn yn y graff isod:





Mae oriau wythnosol gofal cartref a ddarparwyd wedi sefydlogi er gwaethaf poblogaeth sy'n cynyddu ac rydym bellach yn darparu gofal ar raddfa ar gyfer ein poblogaeth yng Nghymru ond yn sylweddol is na deng mlynedd yn ôl. Dangosir hyn isod:

Mae'r graff yn dangos nifer yr oriau a gomisiynwyd ar gyfer Gofal Cartref.




Mae'r ddarpariaeth taliadau uniongyrchol yn sefydlog ar gyfer y rhan fwyaf o grwpiau cleientiaid ac mae ein gweinyddiaeth fewnol wedi cael adolygiad ffafriol. Mae oedolion ag anabledd sy'n elwa ar y taliadau hyn wedi parhau i godi'n araf wrth i ni symud oddi wrth fodelau mwy traddodiadol. Dangosir hyn yn y graff drosodd:




Mae mynd i'r afael â dileu elw gormodol o ofal plant yn faes blaenoriaeth a chytunwyd ar fuddsoddiad sylweddol yn gorfforaethol i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae hyn wedi galluogi Gwasanaethau Plant i gael rhaglen uchelgeisiol i agor dwy uned breswyl arall. Rydym yn disgwyl y bydd ein huned gyntaf yn cael ei chofrestru'n llawn ym mis Medi 2024. Bydd hyn yn ailgydbwyso'r sector ac yn ein galluogi i ddileu'r defnydd o lety sy'n gweithredu heb gofrestru a'r defnydd o'r sector preifat yn gyfan gwbl erbyn 2026.

# Beth mae pobl yn ei ddweud

## Gwobrau

Mae Gwasanaeth Gofal Cartref Cyngor Sir Caerfyrddin wedi bod yn llwyddiannus yn rownd Cymru Gwobrau Gofal Prydain yn y categori cydgynhyrchu, a hynny am ei waith yn datblygu tîm gofal canolraddol integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

**Gwobrau Gofal Prydain 2024 ~ Cenedlaethol**

**Gwobr Rhoi Pobl yn Gyntaf - ENILLYDD**



Mae gwasanaeth Gofal Cartref Cyngor Sir Caerfyrddin a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi cyflwyno dull arloesol o ymdrin â Gofal Canolraddol, sy'n dwyn ynghyd holl bileri Gofal Canolraddol mewn un Tîm Amlddisgyblaethol iechyd a gofal cymdeithasol gwirioneddol integredig o'r enw Gartref yn Gyntaf.

## Gwobr y Butler Trust



Llongyfarchiadau i Gill Adams o Gyngor Sir Caerfyrddin, sydd wedi derbyn Gwobr y Butler Trust gan Ei Huchelder Brenhinol y Dywysoges Frenhinol (Y Dywysoges Anne) mewn seremoni yn Llundain.

Wrth dderbyn Gwobr y Butler Trust 2023/24 yn Ebrill 2014, mae Gill wedi cael ei chydnabod am ei hymroddiad diflino i gyfiawnder ieuenctid ers blynyddoedd lawer a'i rôl ehangach fel Prif Reolwr Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid yn Sir Gaerfyrddin. Gwobrau'r Butler Trust yw'r unig wobrau ledled y DU yn benodol ar gyfer pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau carcharu a chyfiawnder cymunedol ac fe'u disgrifir yn aml fel yr Oscars ar gyfer y sector.

Mae Gill, a enwebwyd gan ei chydweithwyr, yn cael ei chydnabod fel arweinydd gwirioneddol ysbrydoledig sy'n dosturiol ac yn angerddol am yr hyn y mae'n ei wneud i gyfoethogi bywydau pobl ifanc a'u galluogi i gyflawni eu gwir botensial. Mae ganddi broffil cenedlaethol fel un o reolwyr y Tîm Troseddu Ieuenctid (YOT) sydd wedi gwasanaethu hiraf yn y DU a bu'n gadeirydd grŵp rheolwyr YOT Cymru am flynyddoedd lawer ac ar Fwrdd Panel Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, Bwrdd Cenedlaethol Hwb Doeth a Grŵp Defnyddwyr Llysoedd Cenedlaethol a Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid.

O fewn ei rôl fel Prif Reolwr Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid y Cyngor Sir, sy'n cynnwys darpariaeth Cyfiawnder Ieuenctid, mae Gill wedi arwain y gwasanaeth i fod yn wasanaeth hunanwerthuso a dysgu sydd wedi ennill Gwobrau Rhagoriaeth Ieuenctid a'r Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru ar Lefel Aur, ar ôl symud ymlaen yn systematig drwy Efydd ac Arian.

## Adborth o Arolygiadau gan AGC:

### Tachwedd 2023

"Mae pobl yn derbyn gofal a chymorth o ansawdd uchel i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae gan weithwyr gofal ddealltwriaeth dda o anghenion pobl ac maent yn frwdfrydig am ddarparu'r gofal gorau posibl. Dywedodd staff wrthym, "*Dwi am i'm cleientiaid gael gwên ar eu hwynebau oherwydd eu bod nhw'n hapus gyda'r gofal dwi'n ei ddarparu" a "Dwi'n ymfalchïo'n fawr yn fy ngwaith; dwi eisiau'r gorau i'r bobl dwi'n gofalu amdanyn nhw".*

"Mae pobl a'u perthnasau yn canmol y gweithwyr gofal a'r gofal maen nhw'n ei ddarparu. Dywedwyd wrthym, "mae'r gofalwyr yn help mawr, dwi ddim yn gwybod beth fyddwn i'n ei wneud hebddyn nhw, maen nhw'n garedig ac yn gwmni i fi, dwi'n cael sgwrs gyda nhw i gyd", "*mae'r gofalwyr yn hyfryd ac yn garedig"* ac "*mae'r gofalwyr yn rhagorol, maen nhw'n ymweld â fy mam-gu bedair gwaith y dydd, maen nhw'n wych,*

### Tir Einon - Chwefror 2024

Dywedodd perthynas cymaint roedd yn gwerthfawrogi'r gwaith rhagorol y mae'r gwasanaeth yn ei wneud a'r effaith gadarnhaol y mae'n ei chael ar ei anwylyd ac arnyn nhw. Dywedon nhw, *"Mae [X] wedi ymgartrefu'n dda, ac yn edrych ymlaen at ei seibiannau. Mae'n mynd i ffwrdd gyda'i gês bach, ac mae'n ymddangos ei fod yn mwynhau'r amser i ffwrdd. Mae'n ychydig o seibiant iddo fe ac i ni hefyd. Mae Tir Einon yn fendith fawr i ni fel teulu."*

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r bobl sy'n aros yng nghartref Tir Einon yn canmol y gofal a'r cymorth a ddarperir. Dywedon nhw wrthym, "Mae'r holl ofal sy'n cael ei roi o safon hynod uchel, mae pob angen unigol yn cael ei ddiwallu, mae gan bob un ei gynlluniau gofal ei hun ac mae

*allech chi ddim rhoi gwell gofal iddi sy'n beth gwych i'w wybod a'i weld".*

*Mae anghenion gofal a chymorth unigol pobl yn ganolog i'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae gweithwyr gofal yn siarad yn gynnes ac yn wybodus am y rhai maen nhw'n eu cefnogi.*

asesiadau risg yn barod cyn i'r person gael ei dderbyn fel y gall [rheolwr] a'i staff sicrhau eu bod nhw'n gwbl ymwybodol o anghenion ac yn gallu rhagweld unrhyw bryderon" ac "*rwy'n hapus iawn gyda'r gwasanaeth maen nhw'n ei gynnig i'm defnyddiwr gwasanaeth. Mae fy nefnyddiwr ngwasanaeth yn gwenu pan fydd hi'n mynd yno".*

**Gofal Preswyl – Caemaen**

**Mawrth 2023**

"Caiff y bobl y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda o anghenion a dewisiadau unigol y bobl. Mae'r cofnodion gofal yn cyfleu'r unigolyn yn dda, yn adlewyrchu ei anghenion gofal presennol ac yn cynnwys yr unigolyn a/neu ei gynrychiolydd. Mae'r bobl yn canmol y gweithwyr gofal a thîm rheoli'r gwasanaeth."

**Llesiant Delta - Mai 2023**

Mae pobl yn derbyn gwasanaeth am gyfnod cyfyngedig a ddarperir gan staff gofalgar a galluog. Mae adborth gan bobl a'u perthnasau yn adlewyrchu'r gwerth y maent yn ei roi ar y gwasanaeth hwn, gan gynnwys "*roedden nhw [gweithwyr gofal] yn ofalwyr medrus iawn. Rydyn ni'n fwy na bodlon gyda Delta", "roedd y staff mor addas i'r swyddi, dwi'n eu hedmygu'n fawr"* ac *"mae'r gwasanaeth mor galonogol yn ystod cyfnod gofidus a llawn straen".*

*"Mae hwn yn lle gwych i weithio, ces i gyfnod sefydlu da iawn (ond dwys), a dwi wedi cael llawer o hyfforddiant", "Dw i'n dwlu arno, dyma'r cam gorau dwi wedi'i gymryd. Dwi'n cael fy nghefnogi'n dda iawn gan reolwyr, fy ngwthio i ddatblygu fy hun ac i ddefnyddio fy ymreolaeth", "mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn dda iawn, maen nhw bob amser yno os ydych chi eu hangen"* ac *"Mae [y rheolwr] yn hawdd iawn mynd ato ac yn gefnogol ynghyd ag arweinwyr y tîm".*

**Gofal Preswyl – Awel Tywi**

**Mehefin 2023**

"Mae'r staff gofal wedi'u hyfforddi'n dda, maent yn wybodus ynghylch y bobl sy'n cael gofal a chymorth ganddynt ac ategir hyn gan y rhai sy'n byw yn y gwasanaeth a'u perthnasau. Dywedodd y bobl, eu perthnasau a gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth wrthym eu bod yn teimlo bod y gofal a'r cymorth a ddarperir yn gyson dda a dywedwyd, "*Rwy'n hapus iawn yn byw yn Awel Tywi, mae'r gofalwyr yn wych", "mae'n hyfryd yma",* a *"does gen i ddim pryderon o gwbl am fy mam yn byw yma. Mae'r gofalwyr yn dda iawn, maen nhw'n garedig ac yn amyneddgar".*

**Garreglwyd - Tachwedd 2023**

Mae plant yn derbyn cymorth ac anogaeth i fyw bywydau egnïol a gwneud dewisiadau. Mae staff gofal yn trin plant ag urddas a charedigrwydd, maen nhw'n gadarnhaol yn eu hymagwedd ac yn ceisio adeiladu ar gryfderau plant.

Mae awyrgylch teuluol yn y cartref ac mae plant yn ddigon hamddenol ac yn dangos ymdeimlad o berthyn.

Mae'r darparwr gwasanaeth yn comisiynu gwasanaeth eiriolaeth, ac mae eiriolwr yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Mae hyn yn golygu bod plant wedi gallu datblygu perthynas gadarnhaol â pherson sydd wedi dod yn gyfarwydd iddynt ac wedi cael cefnogaeth i fynegi eu barn am agweddau pwysig ar eu cynlluniau gofal a chymorth o ganlyniad.

Arolygiad AGC, Adroddiad ar CONNECT Llesiant Delta, Gorffennaf 2024

Mae pobl yn derbyn gwasanaeth o ansawdd uchel am gyfnod cyfyngedig a ddarperir drwy Unigolyn Cyfrifol, rheolwr a thîm staff ymroddedig ac angerddol. Mae'r rheolwr yn cael ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol a nhw sy'n ysgogi'r gwaith o ddatblygu a darparu'r gwasanaethau amlddisgyblaethol a ddarperir drwy Llesiant Delta.

Ni ellir tanbrisio pwysigrwydd rôl Llesiant Delta i'r unigolion sy'n derbyn y gwasanaeth a'u perthnasau. Dywedodd pobl a'u perthnasau wrthym am eu profiadau rhagorol o'r gwasanaeth, gan gynnwys:

*“Mae Delta yn wasanaeth rhagorol, cafodd effaith gadarnhaol iawn ar ein bywydau ar adeg anodd i ni fel teulu. Roedd y gofalwyr yn hyfryd iawn; mae yna deimlad cymunedol go iawn. Roedden nhw'n parchu fy rhieni a'u cartref”, “Mae Delta wedi bod yn chwa o awyr iach. Maen nhw'n rhoi gofal rhagorol. Roedden nhw'n trin [X] gydag urddas a pharch llwyr, maen nhw wir yn wych”, “Roedd y gofalwr yn hyfryd, fe helpodd hi fi i ymolchi a gwisgo a pharatoi prydau bwyd i fi, alla i ddim gweld dim o'i le arni” ac “Roedd gofalwyr Delta yn ardderchog, roedden nhw mor ofalgar. Gwnaethon nhw wir helpu i dawelu fy meddwl; roedd yn gymaint o ryddhad. Dydw i ddim yn gwybod beth fyddwn i wedi'i wneud hebddyn nhw”.*

Mae staff gofal yn siarad yn angerddol am weithio i Llesiant Delta a'r effaith gadarnhaol ar y bobl maen nhw'n eu cefnogi. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym:

*“Dwi'n mwynhau pob agwedd ar fy swydd, ond fy hoff ran yw gweld yr effaith mae'r gwasanaeth yn ei chael ar bawb rydyn ni'n ymweld â nhw. Mae'n swydd sy'n rhoi cymaint o foddhad”, “Rwy'n dwlu arni. Dwi wrth fy modd gyda'r hyn rydyn ni'n ei wneud a helpu pobl mewn angen, mae'n rhoi cymaint o foddhad” ac “Mae gweithio fel ymatebwr yn rôl sy'n rhoi llawer o foddhad lle dwi'n gallu defnyddio fy ngwybodaeth a fy sgiliau i helpu'r rhai mwyaf bregus”.*

## Arolygiaeth Prawf EF – Arolygiad o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid Mawrth 2024

*Sir Gaerfyrddin yw'r unig Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru i gael sgôr **rhagorol;** rydym yn gydradd drydydd yng Nghymru a Lloegr.*

Mae Tîm Cyfiawnder Ieuenctid Sir Gaerfyrddin wedi derbyn sgôr gyffredinol o 'Rhagorol' yn dilyn arolygiad gan Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi fel rhan o'i rhaglen arolygiadau o Wasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid. Cafodd y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid ei sgorio mewn tri maes cyffredinol - y trefniadau ar gyfer cyflawni sefydliadol y gwasanaeth, ansawdd y gwaith a wneir â phlant sy’n cael eu dedfrydu gan y llysoedd, ac ansawdd datrysiadau y tu allan i’r llys. Cafodd safon y polisi a’r ddarpariaeth ailsefydlu ei harolygu hefyd, a chafodd ei sgorio ar wahân fel **‘Rhagorol’**.

Dywedodd Martin Jones, Prif Arolygydd y Gwasanaeth Prawf, “Mae lefel uchel o ofal ac ymroddiad i’r staff, plant, a dioddefwyr sy’n defnyddio’r gwasanaeth, sy’n ymestyn o uwch arweinyddion i staff gweithredol."

Mae staff wedi’u symbylu, maent yn frwd, ac mae eu gwaith caled yn cael ei gydnabod a’i wobrwyo’n rheolaidd. Mae’r bwrdd rheoli wedi ymrwymo i’r TCI; mae wedi eiriol yn barhaus ar ran y gwasanaeth ac wedi ei helpu’n rhagweithiol i sicrhau’r canlyniadau gorau i blant, teuluoedd, a dioddefwyr.”

Nododd yr adroddiad fod y TCI yn uchel iawn ei barch o fewn y bartneriaeth a bod arweinyddiaeth gref, fywiog a chyson sydd wedi galluogi’r gwasanaeth i weithredu ei weledigaeth a’i strategaeth yn effeithiol. Canmolodd hefyd drefniadau partneriaeth aeddfed a chydlynus sy’n galluogi plant a theuluoedd i ddefnyddio ystod o wasanaethau, gan gynnwys lleferydd, iaith, a therapi cyfathrebu, cymorth addysg cofleidiol, ac ymyriad arbenigol i blant sy’n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol.

Ychwanegodd Mr Jones: “Mae’r ddarpariaeth gwneud iawn wedi gwneud argraff; mae’r gwasanaeth wedi gweithio â’r gymuned i lunio a darparu prosiectau ystyrlon sy’n cael effaith. Mae plant wedi gallu datblygu sgiliau yn ogystal ag ymwneud â chyfiawnder adferol.

“Mae’r gwasanaeth yn mynd ati’n rhagweithiol i ganfod cyfleoedd i ddysgu ac i wella’r gwasanaethau a ddarperir ganddo i’r sector ehangach. Mae hyn yn cynnwys partneriaid yn yr heddlu i fabwysiadu a lleoleiddio dull ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal i beidio cael eu trin fel troseddwyr ac i ddod i gysylltiad diangen â’r system cyfiawnder.

## Crynodeb o Arolwg Gofal a Chymorth 2023/24

Cynhaliwyd yr arolygon Gofal a Chymorth ym mis Medi 2023 a mis Mai 2024 gan dargedu defnyddwyr gwasanaeth a oedd wedi cael Cynllun Gofal a Chymorth rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024.

Cafwyd 65 o'r ymatebion gan ddefnyddwyr gwasanaeth, 54 gan ofalwyr neu gynrychiolwyr yn mynegi barn defnyddwyr gwasanaeth, a 39 gan ofalwyr neu gynrychiolwyr yn mynegi eu barn eu hunain, a ddangosir yn y graff isod:

| | |
|---|---|
| 1 | Cyfanswm nifer yr arolygon a anfonwyd: 780 |
| 2 | Yr ymatebion a ddaeth i law: 158 |
| 3 | Cyfradd ymateb: Tua 21% |
| 4 | Ymwybyddiaeth: Roedd 95% o ddefnyddwyr gwasanaeth yn gwybod pam y cysylltodd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol â nhw. |
| 5 | Gwrando ar sylwadau: Roedd 94% o ddefnyddwyr gwasanaeth yn teimlo bod eu barn yn cael ei chlywed. |
| 6 | Cyngor a gwybodaeth: Roedd 94% o ddefnyddwyr gwasanaeth yn teimlo eu bod wedi cael y cyngor a'r wybodaeth gywir pan oedd eu hangen arnynt. |
| 7 | Urddas a pharch: Roedd 100% o ddefnyddwyr gwasanaeth yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. |
| 8 | Boddhad â Gofal: Roedd 93% o ddefnyddwyr gwasanaeth yn teimlo'n hapus â'r gofal a'r cymorth a gawsant. |
| 9 | Ymweliadau â'r Wefan: Nid oedd 97% o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi ymweld â'r dudalen we Gofal Cymdeithasol ac Iechyd. |

Enghreifftiau o adborth cadarnhaol.

- Diolch i DM (gweithiwr cymdeithasol) am ei gwaith proffesiynol wrth drefnu gofal ar gyfer fy mam. Mae ei gwaith wedi bod yn ardderchog.
- Cymerodd dros 6 mis i drefnu i fy mam gael ei throsglwyddo o ofal a ddarperir gan Gyngor Abertawe i ofal Cyngor Sir Caerfyrddin pan fu'n rhaid iddi ddod i fyw gyda ni o'i chartref yn Abertawe oherwydd salwch/dementia. Roedd pawb deliais i â nhw yn y cyngor yn hyfryd, yn garedig iawn ac yn gymwynasgar ac roeddwn i'n gwerthfawrogi bod rhestr aros hir am ofal, ond roedd yn anodd iawn ceisio jyglo gwaith wrth ofalu am fam â dementia a thad yn yr ysbyty ar ôl cael codwm. Pan gafodd gweithiwr cymdeithasol ei neilltuo o'r diwedd, E, newidiodd popeth - mae hi wedi bod yn wych, a alla i ddim diolch digon iddi am ei holl help, gofal a chefnogaeth ers hynny.

# Canmoliaeth

## Canmoliaeth a ddaeth i law
**115**

### Y 3 Tîm Uchaf

| | |
|---|---|
| 24 | Hirdymor Sir Gaerfyrddin |
| 23 | Gofal Cartref Mewnol |
| 15 | Hirdymor Llanelli |

# Cwynion

## Cwynion a ddaeth i law
**66**

| | |
|---|---|
| 54 | Cam 1 |
| 12 | Cam 2 |
| 61 | Ailgyfeirio/Dim Camau Pellach/Wedi'i Rhoi o'r Neilltu |

Derbyniwyd 3 cwyn y tu allan i'r amserlen o 12 mis.
Gwrthodwyd 0

Cyfeiriwyd 4 cwyn at yr Ombwdsmon
Gwrthodwyd 3
Derbyniwyd 1

# Cam 1

## Natur y Gŵyn – Y 3 Uchaf

| | |
|---|---|
| 21 | Ansawdd y Gwasanaeth |
| 11 | Materion Staff |
| 8 | Ansawdd y Gofal |

Cydnabuwyd y gŵyn o fewn yr amserlen
**98%**

Ymatebwyd i'r gŵyn o fewn yr amserlen
**55%**

# Cam 2

## Natur y Gŵyn – Y 3 Uchaf

| | |
|---|---|
| 5 | Ansawdd y Gofal |
| 4 | Ansawdd y Gwasanaeth |
| 2 | Materion Ariannol |

| | |
|---|---|
| 9 | Cadarnhawyd |
| 6 | Heb eu cadarnhau |

Ymatebwyd i'r cwynion o fewn 74 diwrnod gwaith ar gyfartaledd

# Hyfforddiant



| | |
|---|---|
| 11 | Sesiynau hyfforddiant a gynhaliwyd |
| 204 | Nifer yr aelodau staff a gymerodd ran |

## Enghreifftiau o'r ganmoliaeth a gafwyd:

"Fe fyddwch chi'n newid bywydau ond nid oherwydd eich teitl swydd ond oherwydd eich bod chi eisiau helpu yn unig. Chi yw'r person cyntaf yn broffesiynol dwi'n gwybod bod eich cyfraniad wedi newid fy marn amdana i fy hun ac am eraill mewn ffordd ysbrydoledig. Rydych chi wedi gwneud i fi weld bod yr hyn sydd ddim yn eich lladd chi'n eich gwneud chi'n llawer cryfach. Yn y nerth yna rydych chi'n rhoi gobaith i'r rhai sydd wedi torri."

"Dwi'n gobeithio bod Pennaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn sylweddoli cymaint o drysor yw'r gweithiwr cymdeithasol [enw'r gweithiwr cymdeithasol]. Allwn i ddim fod wedi dymuno i berson gwell ofalu am fuddiannau [fy mherthynas] tra oedd yn Ysbyty Glangwili."

"I'r tîm argyfwng a phawb sy'n gysylltiedig ag e,
yn gyntaf, hoffwn i ddiolch i bob un ohonoch chi am yr hyn rydych chi'n ei wneud dros bobl fel fi. Rydych chi i gyd yn arwyr yn fy marn i am y gwaith rydych chi i gyd yn ei wneud a'r newid i fywydau pobl fel fi, felly diolch yn fawr iawn a Nadolig Llawen hefyd. [Enw'r cynorthwyydd gwaith cymdeithasol] wel, lle dylwn i ddechrau? Allwn i byth fod wedi dymuno gwell gweithiwr cymdeithasol, mae hi wedi mynd yr ail filltir, ei hymrwymiad, ei hymroddiad a'i hymdrech bersonol i helpu a gwneud popeth mae'n gallu, ar gyfer ei chleifion a fi. Mae ei hagwedd bositif yn wirioneddol heintus, ac roedd hi wir yn gwrando arna i ac wedi gweithio mor galed drosto i, mae ganddi empathi anhygoel sy'n rhyfeddol, a dywedais i wrthi hi o'r dechrau doeddwn i ddim eisiau iddi deimlo piti drosto i na chydymdeimlad am yr hyn es i drwyddo, ac mae hi wedi bod yn wych. Mae gyda ni berthynas wych, byddwn i'n dweud fy mod i wedi gwneud ffrind newydd a galla i ddweud yn onest ei bod hi 100% WEDI ACHUB FY MYWYD."

"Roeddwn i'n disgwyl cael galwad ffôn am fathodyn glas o fewn 5 diwrnod – ond fe ges i fe'n ôl 1 diwrnod yn ddiweddarach.

Byddai'n braf pe bai popeth dwi'n delio gyda fe yn cynnig gwasanaeth yr un mor effeithlon a chyflym.

Diolch yn fawr iawn!"

"Bore da, just isie diolch i chi am yr adroddiad a wnaethoch ar mam. Roeddwn yn ei ddarllen neithiwr ar ôl teithio draw ddoe. Mae'r gloch yn fanteisiol iawn, ond mae mam yn cymryd 'chydig o amser i ddod i arfer gyda'r clustffonau. Fe ddaw gydag amser, Diolch unwaith eto"

Dwi'n ei chael hi'n anodd chwilio am y geiriau i ddiolch i chi i gyd am bopeth a wnaethoch dros L. Roedd safon y gofal a gafodd yn rhagorol ac roeddech chi i gyd yn ei charu ac yn chwerthin gyda hi bob dydd – roedd hi'n eich caru chi i gyd ac yn gwerthfawrogi popeth roeddech chi'n ei wneud. Roeddech chi bob amser yn gofalu amdani gyda thosturi a sensitifrwydd ac o ganlyniad roedd hi'n gallu aros yn ei chartref gan wireddu ei dymuniad mwyaf – i farw gyda phreifatrwydd ac urddas. Diolch yn fawr

Diolch am eich gofal diflino, diwyd ac ystyriol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydyn ni'n dymuno hapusrwydd ac iechyd da i chi yn ystod y flwyddyn nesaf!

"Mae wedi bod yn bleser mawr gweithio gyda SW ac mae'n amhosibl cyfrif y ffyrdd mae hi wedi gwneud ein proses yn haws. Rydyn ni'n siŵr bod y rôl yn aml yn un ddiddiolch ac felly roedden ni eisiau tynnu sylw at ba mor rhagorol yw hi a'i rhannu gyda chi." Mae ymrwymiad, sgiliau cymdeithasol, tosturi, sgiliau trefnu, proffesiynoldeb a deallusrwydd emosiynol SW heb eu hail a dylid eu canmol yn fawr.

All fy ngŵr a minnau ddim diolch digon i chi am yr holl help ac arweiniad mae'r Tîm wedi'u rhoi i fi yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Dywedodd un aelod o'r teulu fod ein bywydau wedi newid yn llwyr; mae fy iechyd yn well, mae popeth yn well. Ro'n i yn y gwaelodion cyn iddyn nhw ddod ac roedd hi wedi mynd i'r pen arna' i. Mae'r gofalwyr yn oleuni ym mhen draw'r twnnel i mi a fy ewythr.

## Cwynion Cam 2

Daeth y broses gŵynion i ben ar gyfer 15 cwyn cam 2 rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, gan gadarnhau 9 a pheidio â chadarnhau 6.

- Cafwyd 7 o'r cwynion hyn o fewn yr amserlen hon.
- Roedd 8 o'r cwynion hyn yn dal heb gael eu datrys o 2022/23.

Amlinellir enghreifftiau o argymhellion a chamau gweithredu yn dilyn cwynion a gafodd eu datrys yn Ch4 2023/24 isod:

**Argymhelliad**

Mae'r Cynllun Gofal ac asesiad risg wedi cael eu diweddaru ar y cyd â'r unigolyn a'r gofalwr gan rannu copi gyda nhw.

**Cam Gweithredu**

Cyfarfu cynrychiolydd asiantaeth gofal â'r unigolyn a'r gofalwr. Fe wnaethant drafod y cynllun gofal a'r asesiad risg a gwneud newidiadau perthnasol gan anfon copi o'r cynllun gofal a chymorth diwygiedig atynt. Mae'r ddau yn hapus â'r cynllun, ac mae hwn bellach ar waith ac yn gweithio'n dda.

**Argymhelliad**

Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn adolygu ei bolisïau, ei weithdrefnau a'i brosesau gweithredol lleol a rhanbarthol yn y cynllun.

**Cam Gweithredu**

Cynhaliwyd cyfarfod gydag uwch-reolwyr perthnasol i drafod yr angen am yr adolygiad a bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i gwmpasu'r gwaith sydd ei angen. Mae Rheolwr Busnes newydd hefyd wedi'i benodi a fydd yn rhan o'r adolygiad hwn.

## Cwynion i'r Ombwdsmon

Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Rhagfyr cafodd 4 cwyn eu huwchgyfeirio i Ombwdsmon Cymru a chafwyd y penderfyniadau canlynol ganddo:

- Gwrthodwyd un gan nad oedd yn "un [y gallai] ymchwilio iddi" gan nad oedd yn dod o fewn gweithdrefn gwynion y gwasanaethau cymdeithasol.
- Gwrthodwyd un gan nad oedd yn "un [y dylai] ymchwilio iddi" ar ôl gwneud ymholiadau cychwynnol amdani gyda Chyngor Sir Caerfyrddin.
- Gwrthodwyd un gan nad oedd Cyngor Sir Caerfyrddin "wedi cael cyfle rhesymol eto i ymchwilio i'w gŵyn ac ymateb iddi", felly roedd yn gynamserol.
- Un lle cytunwyd i ymchwilio i rai agweddau ar y gŵyn.

Cafodd 2 o'r cwynion hyn eu huwchgyfeirio yn dilyn ymchwiliad Cam 2.

## Yr Iaith Gymraeg

Mae'r Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau yn ddogfen bolisi sy'n nodi gweledigaeth a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Lansiwyd y fframwaith gyda'r nod o sicrhau bod pobl sy'n siarad Cymraeg yn gallu cael gofal diogel a thosturiol, o ansawdd uchel, yn eu hiaith eu hunain.

Mae'r fframwaith yn seiliedig ar dair egwyddor: cynnig rhagweithiol, cynllunio gwasanaethau a datblygu'r gweithlu. Mae'r cynnig rhagweithiol yn golygu bod siaradwyr Cymraeg yn cael cynnig y cyfle i ddefnyddio eu hiaith heb fod yn gorfod gofyn amdano. Mae cynllunio gwasanaethau yn golygu bod anghenion a dewisiadau siaradwyr Cymraeg yn cael eu hystyried wrth ddylunio a darparu gwasanaethau. Mae datblygu'r gweithlu yn golygu bod staff yn cael eu cefnogi a'u hannog i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

Mae'r fframwaith hefyd yn nodi pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu: iechyd meddwl, dementia, plant a phobl ifanc, a gofal diwedd oes. Mae'r rhain yn feysydd lle gall defnyddio'r Gymraeg gael effaith sylweddol ar ansawdd a chanlyniadau gofal, yn ogystal â llesiant ac urddas defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd.

Yn ystod 2023-24, rydym wedi parhau i sefydlu egwyddorion y fframwaith Mwy na Geiriau yn Sir Gaerfyrddin, drwy:

- Ymgymryd â dadansoddiad manwl o sgiliau Cymraeg ein gweithlu, er mwyn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gywir a chlir. Dyma ein data diwedd blwyddyn ynghylch y sgiliau sydd gennym yn yr Adran Cymunedau.
- Cefnogi ein staff i ddysgu a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynnig cyfleoedd Cymraeg Gwaith, sydd wedi'u teilwra i'n gweithlu.

- Gweithio'n agos gyda Thîm Prosiect Pentre Awel i asesu effaith bosibl y datblygiad ar y Gymraeg ac i greu cynllun gweithredu i sicrhau bod Safonau'r Gymraeg ac egwyddorion Mwy na Geiriau yn rhan annatod o bob elfen o'r gwaith.
- Trafod y camau nesaf ar gyfer datblygu'r fframwaith gyda chydweithwyr o Uned Bolisi'r Gymraeg yn y Gyfarwyddiaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar yn Llywodraeth Cymru.

Rydym yn gallu darparu'r cynnig rhagweithiol ar bob lefel gan fod mwy na 40% o staff yn yr adran wedi'u hasesu eu hunain fel rhai sydd â lefel 3 ac uwch yn Gymraeg. Llesiant Delta yw'r unig ganolfan alwadau a Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ddwyieithog sydd ar agor 24 awr y dydd yng Nghymru.

# Strwythur Rheoli



# Camau nesaf 2024/25

Mae'r camau a'r mesurau allweddol a amlinellir yn y cynllun busnes yn nodi sut rydym yn bwriadu rhoi hyn ar waith. Eleni byddwn yn canolbwyntio ar amcanion strategol:

**Plant a Theuluoedd**

| Rhif | Cam Gweithredu |
|---|---|
| **CFS1** | Gweithio at fynd i'r afael â'r bylchau yn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022-27, gan gynnwys hyrwyddo a datblygu gofal plant cyfrwng Cymraeg ymhellach. |
| **CFS2** | Rhoi rhaglen strategol ar gyfer gwasanaethau preswyl ar waith ymhellach, gan gynnwys caffael, adnewyddu a datblygu tri chartref newydd i blant, er mwyn diwallu'r amrywiaeth o anghenion sydd gan blant sy'n derbyn gofal yn Sir Gaerfyrddin. |
| **CFS3** | Sefydlu gwasanaeth cymorth cynnar effeithiol sy'n helpu teuluoedd i wneud y newidiadau sydd eu hangen ar blant fel bod llai o blant yn symud ymlaen i lwybr amddiffyn plant, a gall plant aros gartref/dychwelyd adref yn ddiogel. |
| **CFS4** | Cynyddu capasiti'r gwasanaeth maethu i reoli'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gwella cyfraddau recriwtio a chadw a chymorth i Ofalwyr Maeth, er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o leoliadau maeth mewnol i ddiwallu anghenion amrywiol plant sy'n derbyn gofal yn Sir Gaerfyrddin. |
| **CFS5** | Cyflwyno polisi teg a thryloyw ar gyfer dyrannu adnoddau i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd. |
| **CFS6** | Sicrhau y gall plant a phobl ifanc gael mynediad at addysg briodol mewn lleoliad lle maent yn ddiogel, a lle mae eu hanghenion yn cael eu diwallu. |
| **CFS7** | Ehangu Dechrau'n Deg yn raddol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. |
| **CFS8** | Gweithredu blaenoriaethau allweddol yn y Cynllun Gweithredol Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar a'r Strategaeth Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar Ranbarthol mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r Sector Gwirfoddol a symud tuag at fodel cyflawni integredig. |
| **CBS-COM** | Byddwn yn gweithio gyda'r gwasanaethau plant i ddatblygu modelau comisiynu i gyfrannu at leihau costau. |

**Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Integredig**

| Rhif | Cam Gweithredu |
|---|---|
| ASC1 | Datblygu strategaeth atal a chynllun cyflawni ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion. |
| ASC2 | Datblygu amrywiaeth o opsiynau llety ar draws grwpiau poblogaeth. |
| ASC3 | Tyfu gwasanaeth mewnol cynaliadwy ar draws grwpiau poblogaeth. |
| ASC4 | Arwain y trefniadau diogelu corfforaethol i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau i ddiogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl. |
| **Rhif** | **Cam Gweithredu** |
| IS1 | Datblygu un pwynt mynediad ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol. |
| IS2 | Gweithredu Adolygiad o CICES |
| IS3 | Ailddylunio Ysbytai Cymunedol |
| IS4 | Porthgadw / Sefydlogrwydd Gofal Preswyl |
| IS5 | Technoleg a Monitro Digidol i Gefnogi'r Henoed Bregus a'r Rhai Mwyaf Agored i Niwed. |
| **Rhif** | **Cam Gweithredu** |
| CBS1 | Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwasanaethau atal a sefydlu ein pum hwb llesiant cymunedol. |
| CBS2 | Byddwn yn parhau i gefnogi a datblygu marchnad amrywiol a bywiog sy'n cynnwys datblygu microddarparwyr, menter gymdeithasol ac ailgydbwyso'r farchnad. |
| CBS3 | Byddwn yn parhau i gefnogi gofalwyr di-dâl ledled y sir. |
| CBS4 | Byddwn yn parhau i weithio gyda thai a phartneriaid eraill i ddatblygu amrywiaeth o gynigion llety i helpu pobl i fyw'n dda, gyda modelau gofal a chymorth sydd â hyrwyddo annibyniaeth a chanlyniadau wrth ei wraidd. |
| CBS5 | Byddwn yn cyflawni gofynion statudol Ailgydbwyso Gofal a Chymorth ar gyfer comisiynu. |
| CBS6 | Yn y Gwasanaeth Cymorth Busnes a Chomisiynu, byddwn yn dadansoddi'r gweithlu presennol, ac yna ehangu'r dadansoddiad hwnnw er mwyn nodi'r gofynion, y sgiliau a'r cymwyseddau o ran y gweithlu y bydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau newydd, gwahanol neu well yn y dyfodol. |